



Adroddiad blynyddol
a datganiadau ariannol

2019/20

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL 2019/20

Swyddog a chynghorwyr proffesiynol

Cyfarwyddwyr	Iraj Amiri Cyfarwyddwr An-weithredol	Rhys Jones Cyfarwyddwr An-weithredol (penodwyd 1 Mawrth 2020)
Gareth Bullock Cadeirydd	Carol Bell Cyfarwyddwr An-weithredol	David Staziker Prif Swyddog Ariannol
Giles Thorley Prif Weithredwr	Roger Jeynes Cyfarwyddwr An-weithredol	Judi Oates Ysgrifennydd y Cwmni
Huw Morgan Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol An-weithredol	Margaret Llewellyn OBE Cyfarwyddwr An-weithredol	

Swyddfa Gofrestredig

Uned J
Pentref Busnes Yale
Ellice Way
Wreccsam
LL13 7YL

Bancwyr

Barclays Bank Plc
Blwch Postio 69
Queen Street
Caerdydd

Archwilwyr

Deloitte LLP
5 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

CYNNWYS

1. Adroddiad strategol 04-73

Cynnwys

Datganiad y Cadeirydd
Adroddiad y Prif Weithredwr
Uchafbwyntiau Perfformiad
Model busnes
Cronfeydd
Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi

Buddsoddiadau a gwasanaethau eraill

Dechrau busnes
Tyfu busnes
Benthyciadau llwybr cyflym
Datblygu menter dechnoleg
Prynu busnes
Ariannu datblygiad eiddo
Angylion Buddsoddi Cymru
Dirnad Economi Cymru
Cymorth i Brynu – Cymru
FW Capital

Rhanddeiliaid ac effaith

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru
Datganiad A172 gan y cyfarwyddwyr
Effaith buddsoddi

Rheolaeth ariannol a risg

Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol
Rheoli risg a rheolaeth fewnol
Fframwaith rheoli risg
Diwylliant risg
Goddefgarwch risg
Prif risgiau
Llinellau model amddiffyn

2. Adran llywodraethu 74-93

Adran llywodraethu
Adroddiad cyfarwyddwyr
Bywgraffiadau cyfarwyddwyr
Datganiad llywodraethu Corfforaethol
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Adroddiad y Pwyllgor Enwebu
Pwyllgorau eraill

3. Datganiadau ariannol 94-161

Cyfrifon blynyddol



1

ADRODDIAD STRATEGOL

Er mwyn i Gymru ffynnu, credwn fod angen i'n busnesau ffynnu. Pan fydd ein busnesau'n ffynnu, maen nhw'n creu nifer uwch o swyddi o ansawdd gwell. Mae'r bobl maen nhw'n eu cyflogi yn cryfhau ein cymunedau. Pan mae busnesau Cymru yn gryf, mae Cymru yn gryf. Ein pwrpas yw ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, cryfhau a thyfu.

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Gosod seiliau ar gyfer sefydliad sy'n parhau



"Rydym wedi ehangu ystod a chyrraeddad ein gweithgareddau a'n galluoedd."

Gareth Bullock

Cadeirydd



Cenhadaeth

Datgloi potensial economi Cymru trwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol yn y farchnad.



Gweledigaeth

I fod yn adnodd unigryw i Gymru, gan greu gwerth tymor hir a gwella economi ddeinamig, gystadleuol Cymru.



Gwerthoedd

Agored | Cyfrifol | Partneriaeth



Nodau

Dod yn sefydliad conglaen ar gyfer cyflwyno offerynnau ariannol y sector cyhoeddus, gan gefnogi busnesau micro i ganolig yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad o gyllid.

Cyflawni amcanion polisi allweddol trwy gyflawni targedau perfformiad a darparu gwasanaethau rheoli buddsoddiadau a chymorth ar draws Llywodraeth Cymru gyfan.

Hyrwyddo datblygiad economaidd trwy fodel cyflenwi addasadwy sy'n ymatebol i anghenion y farchnad wrth ddarparu gwerth am arian cyhoeddus.

Mae'n amser eithriadol i fod yn ysgrifennu at ein rhanddeiliaid. O dan amgylchiadau arferol byddwn wedi bod yn ysgrifennu ar ran y Bwrdd i ddisgrifio blwyddyn arall o gynnydd da gan y Banc Datblygu ac yn tynnu sylw at rai o'r mentrau sy'n cael eu cynnal gan y tîm rheoli er mwyn parhau i adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol. Er y gwnaf hynny, ar ffurf mwy cryno nag arfer, rhaid imi hefyd egluro sut mae'r Banc Datblygu wedi ymateb i heriau pandemig Covid-19. Mae hon wedi bod ac yn dal i fod yn her ar raddfa ddigynsail sydd wedi effeithio nid yn unig ar ein cwsmeriaid ond sydd wedi ymofyn addasiadau sylweddol gan ein staff ni ein hunain ac yn ein gweithrediadau.

O fy natganiadau Cadeirydd blaenorol, bydd rhanddeiliaid yn gwybod mai rôl y Banc Datblygu yw llenwi'r bwlch cyllid a wynebir gan fusnesau micro-i-ganolig Cymru. Rydym yn gwneud hyn trwy strwythuro a defnyddio cronfeydd buddsoddi, bwydir gwybodaeth iddo o flaenoriaethau Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn ogystal â thrwy gwybodaeth a geir gan ein rhanddeiliaid a'n cydweithwyr ym myd busnes a'r Llywodraeth.

Rydym yn cymryd y risgiau uwch hynny na all y sector preifat eu cymryd ar eu pennau eu hunain fel rheol, wrth weithredu model risg i leihau cyllid trethdalwyr a chynyddu cyfranogiad y sector breifat i'r eithaf.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'n Prif Weithredwr, Giles Thorley, a'n huwch reolwyr am yr arweinyddiaeth y maent wedi'i ddangos wrth gyrraedd ein targedau gweithredol allweddol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Trwy gynnig cyllid o dros £103 miliwn, crëwyd neu fe ddiogelwyd bron i 4,000 o swyddi ar draws 457 o fargenion cyllido.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i hymrwymiad pwerus i ariannu'r Banc Datblygu gyda £64 miliwn arall yn y flwyddyn ariannol, gan ddod i gyfanswm o £450m ers sefydlu'r Banc. Roedd hon yn flwyddyn orau erioed arall i'r Banc Datblygu.

Cyrraeddodd cyfranogiad y sector preifat yn ein harian cyllido £75.9 miliwn ac felly dosbarthwyd cyfanswm o dros £179m i sector micro-i-ganolig Cymru o'n gweithgareddau. Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf mae hyn wedi dod i gyfanswm o dros £750 miliwn, sy'n gyfraniad sylweddol iawn i lwyddiant mentrau Cymru.

Y tu allan i'n gweithgaredd cyllido craidd, parhaodd Dirnad Economi Cymru â'i ddatblygiad i fod yn ffynhonnell awdurdodol o ymchwil a data ar agweddau ar economi Cymru gyda ffocws penodol ar wella perthnasedd, ansawdd a hygyrchedd ei allbynnau. Yn ogystal, parhaodd ein partneriaeth â Busnes Cymru i ddwysau gyda chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau busnes o dros draean. Cyrraeddodd FW Capital, ein gweithrediad yng Ngoogledd Lloegr, nifer o gerrig milltir buddsoddi allweddol yn y flwyddyn gan gynnwys buddsoddiad o £50 miliwn o Gronfa Buddsoddi Pwerdy'r Gogledd ar draws 170 o fusnesau.

Mae'r Banc Datblygu ei hun bellach wedi tyfu i 239 o weithwyr, cynnydd o 70% dros bum mlynedd, gan ein bod wedi ehangu ystod a chyrraeddad ein gweithgareddau a'n galluoedd. Ein nod yw bod yn ganolfan ragoriaeth trwy recriwtio staff profiadol, doniau newydd, datblygu a hyfforddi ein staff, adeiladu systemau menter modern a chyflwyno dulliau gweithio craff. Mae'r buddsoddiadau hyn, ynghyd â'r rhai yn ein seilwaith digidol, wedi gwella ein hyblygrwydd

sefydliadol ymhellach a byddant yn helpu i sicrhau bod ein sylfaen costau yn tyfu ar gyfradd is na'n cronfeydd buddsoddi yn y dyfodol.

Gan droi yn awr at yr argyfwng Covid-19, graddfa ei effaith economaidd tebygol a'r camau sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol a wnaeth ddim ond dod yn amlwg wrth i ni orffen diwedd ein blwyddyn ariannol ym mis Mawrth. Aethom ati yn syth bin yn ystod pythefnos gyntaf y mis hwnnw i gynllunio parhad busnes a rhwydweithio teleffoni o bell. Yn y drydedd wythnos symudodd yr holl staff i weithio gartref ac, fel cam cyntaf ac uniongyrchol, cytunwyd â Llywodraeth Cymru i gynnig gwyliau ad-dalu cyfalaf o 3 mis i bob cwsmer portffolio i leddfu'r pwysau ar gyllid cwmnïau a oedd eisoes wedi dod i'r amlwg.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru fe wnaethom wedyn greu cronfa newydd, Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru (a adwaenir yn gryno fel CWBLS) a oedd â'r nod o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau Cymru i fod yn sail i'r mesurau a gyflwynwyd gan lywodraeth y DU. Mae'r ddihareb Gymreig, adfyd a ddaw â dysg yn ei law yn ymddangos yn briodol gan fod adfyd yn sicr wedi dod â dysg sylweddol 'yn ei law' i'r Banc Datblygu. Yn ystod yr wythnos gyntaf yn dilyn ei gyhoeddiad gan y Prif Weinidog, cawsom bedair gwaith nifer y ceisiadau nag y byddem fel arfer yn eu cwblhau mewn blwyddyn. Aelodau gweithlu, a pob un ohonynt yn gweithio gartref, ddydd a nos, mewn 'podiau' gweithredol newydd eu strwythuro ac wedi'u cysylltu trwy gyfrwng MS Teams, a brosesodd y ceisiadau hynny gydag ymroddiad ac effeithlonrwydd. Wrth i mi ysgrifennu hyn, mae ein cynllun CWBLS wedi'i ddyrannu

i raddau helaeth ac mae wedi darparu cefnogaeth ariannol hanfodol i sector bregus yn economi Cymru. Rydym bellach yn gwybod bod ein systemau'n gweithio mewn adfyd, gall ein pobl fynd i'r afael â heriau cymhleth, a gellir cyflawni ein gwaith o bell mewn cyfluniadau hyblyg.

Gan edrych i'r dyfodol, mae llawer i'w wneud erbyn hyn wrth i fusnesau Cymru ystyried sut fyddant yn adfer. Mae'r Banc Datblygu, sydd â sylfaen o gwsmeriaid newydd sydd wedi [dyblu] mewn ychydig o wythnosau byr, yn barod i chwarae ei ran. Rydym eisoes mewn trafodaethau gweithredol gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i nodi'r ymyriadau mwyaf effeithiol i sicrhau bod adferiad yn gwreiddio'n gryf.

Fel bob amser, ond yn enwedig eleni, hoffwn ddiolch i'n holl weithlu am eu gwaith caled eithriadol yn ystod yr amser rhyfeddol hwn. Mae eu cydnheredd rhyfeddol a'u perfformiad dan bwysau yn rhoi hyder i'r Bwrdd ein bod yn barod ac yn gallu cwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau fel pob un ohonom sy'n ymwneud ag economi Cymru wrth i ni ymdrechu i'w helpu i "adeiladu'n ôl yn well."

Gareth Bullock

Cadeirydd
29 Gorffennaf 2020

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Gwneud cynnydd gyda'n hamcanion allweddol

Mae Banc Datblygu Cymru yn gwneud cynnydd da. Yn ein trydedd flwyddyn fe wnaethom dyfu gweithgaredd i dros £100m o fuddsoddiad uniongyrchol i Economi Cymru ac rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid eraill i gynyddu ein heffeithiolrwydd.



"Fy uchelgais yw cyflwyno'r gwasanaeth digidol gorau yn y dosbarth gyda wyneb dynol."

Giles Thorley
Prif Weithredwr

Perfformiad

Cynyddodd lefelau buddsoddi cyffredinol i £103m, gwelliant o bron i 30% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cynyddodd niferoedd buddsoddiad hefyd i 457, gan wneud maint ein borgen ar gyfartaledd ar draws pob marchnad yn £226,039. Buddsoddwyd cyfalaf pellach y sector breifat o £75.9m ochr yn ochr â'n cronfeydd gyda chymhareb o 1:0.73.

Cyrhaeddodd cyfanswm y buddsoddiad ecwiti yn y flwyddyn £16m. O hyn, aeth £11.44m i 51 o fentrau technoleg cam cynnar, a fe wnaethom gadw ein statws yn adroddiad ecwiti Beahurst fel un o'r 5 buddsoddwyr technoleg gorau yn y DU.

Cyflawnwyd dau ymadawiad llwyddiannus gyda gwerth cyfun o £2.8m.

Buddsoddiad mewn eiddo fu'r gydran o'r farchnad a dyfodd gyflymaf inni yn ystod y

blynyddoedd diwethaf a pharhaodd 19/20 â'r duedd honno gan gynyddu 47% flwyddyn ar ôl blwyddyn i £34.1m. Fe wnaethom gefnogi bron i 80 o ddatblygwyr eiddo BBaCh ar draws 112 o brosiectau gan gyflenwi 263 o unedau tai marchnad a 70 o unedau fforddiadwy. Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd y buddsoddiad cyntaf o Gronfa Eiddo Masnachol Cymru, yn ariannu'r datblygiad o 100,000 troedfedd sgwâr o ofod masnachol newydd yn Aberystwyth. Ym mis Mawrth, lansiodd y cynllun Hunanadeiladu Cymru newydd sy'n arwain y farchnad. Mae'r gronfa hon o £210m yn darparu llwybrau â chymorth i mewn i hunanadeiladu i ddarparu berchnogion tai a chyfleoedd i ddatblygwyr BBaCh i adeiladu cartrefi safonol pwrpasol o ansawdd ledled y wlad.

Ar ben llai'r raddfa, mae micro-fenthyciadau yn parhau i weld galw mawr am symiau hyd at £50,000 gyda maint borgen ar gyfartaledd yn

£23,500. Derbyniodd 265 o fusnesau gyllid gyda 73 o'r rhain yn defnyddio'r broses llwybr cyflym ar gyfer cwmnïau sy'n masnachu dros ddwy flynedd, wedi'u hehangu o'r newydd i fenthyciadau hyd at £25,000 ac fe geir penderfyniad mewn dim ond dau ddiwrnod busnes. Rydym wedi cynyddu ein ffocws ar sicrhau bod buddsoddiad yn cyrraedd pob rhan o Gymru ac mae hyn yn parhau i wella flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn y cyfnod dosbarthwyd buddsoddiad yn dda ar draws y tri rhanbarth, gyda £38.7m wedi'i fuddsoddi yn Ne Cymru, £34.3m yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a £30.4m yng Ngogledd Cymru. Yn olaf, mae ein cymwysterau fel buddsoddwyr sy'n gweld gwerth mewn perthnasoedd tymor hir gyda'n cwsmeriaid yn parhau i ddatblygu gyda 42% o'r buddsoddiad blynyddol yn mynd i gwsmeriaid presennol.

Tyfu ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi parhau i dyfu i gwrdd â heriau ein cylch gwaith a chronfeydd estynedig. Mae cyfanswm nifer y pen wedi tyfu 18% ac rydym wedi cynnal ffocws ar ddatblygu a siapio'r busnes. O ganlyniad, mae 28 o bobl wedi cael dyrchafiad a chwblhawyd dros 1,170 diwrnod o hyfforddiant a datblygiad sy'n arddangos ein hymrwymiad i fuddsoddi yn natblygiad sgiliau a galluoedd ar draws ein tîm.

Erys denu a chadw gweithlu amrywiol gyda'r gymysgedd iawn o sgiliau a phrofiad i fod yn ystyriaeth allweddol os ydym am gyflawni ein hamcanion i ymestyn. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom greu brand cyflogwr wedi'i adnewyddu a'i ddiweddarau o'n harferion recriwtio i adlewyrchu'n well y cyfle y mae ymuno â'r tîm yn ei gynnig.

Rydym wedi gwneud cynnydd da ar ein taith tuag at drawsnewid i fodel cyflawni digidol cyntaf wrth barhau i fod yn ymrwymedig i'r agwedd wyneb yn wyneb sy'n cael ei werthfawrogi gan ein cwsmeriaid. Ein cyfrifoldeb ni yw bod mor effeithlon gydag arian cyhoeddus â phosibl, sy'n cael ei adlewyrchu yn fy uchelgais i ddarparu'r gwasanaeth digidol gorau yn y dosbarth gyda wyneb dynol. Mae buddsoddi yn ein systemau a'n prosesau yn rhan hanfodol o sicrhau bod ein busnes yn ystwyth ac yn gallu symud yn gyflym i ymateb i gyfleoedd neu heriau yn y farchnad.

Ymateb i Covid-19

Daeth yr argyfwng a amgylchynodd ein bywydau beunyddiol i'r amlwg yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon. Wrth i'r heriau economaidd a ysgogwyd gan yr argyfwng ddatblygu, taflodd sylw at rôl hanfodol y Banc Datblygu wrth ddarparu rhywfaint o gydnerthedd i economi Cymru. Cryfder y sefydliad wastad wedi bod yw ein gallu i symud a chyflawni'n gyflym ac yn effeithiol ac ni phrofwyd hyn erioed gymaint wrth i 2019/20 ddirwyn i ben.

Wrth i fasnach arafu, ein gweithred gychwynnol oedd darparu rhywfaint o ryddhad ar ffurf llif arian i dros 1,300 o'n Cwsmeriaid dyled ar ffurf 3 mis o wyliau ad-dalu a daeth hynny'n weithredol ar unwaith. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru ar y 30ain o Fawrth gyda'r ceisiadau cyntaf yn cyrraedd o fewn yr awr. Rydym yn rhannu ymagwedd benderfynol Llywodraeth Cymru tuag at sicrhau bod cymaint o fusnesau bach â phosibl, yn goroesi'r cyfnod clo ac yn gallu masnachu cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau yn caniatáu.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2020/21, rydym yn glir mai ein rôl yw sicrhau hylifedd yn economi Cymru ac ar gyfer busnesau bach yn benodol. Rydym yn deall y bydd angen hyn yn fwy nag erioed o'r blaen wrth i ni adfer. Wrth inni wynebu'r heriau hyn, byddwn yn cynnal deialog barhaus gyda'n rhanddeiliaid, gan gynnwys cwsmeriaid a chydweithwyr a byddwn yn glynu'n driw i'n gwerthoedd "Partneriaeth Agored, Gyfrifol".



Giles Thorley
Prif Weithredwr
29 Gorffennaf 2020

Uchafbwyntiau perfformiad

£ +30%

£80m | £103.3m
18/19 | 19/20

Buddsoddiad blynyddol

£ +8.8%

420 | 457
18/19 | 19/20

Nifer y buddsoddiadau

🔒 -39.8%

£126m | £75.9m
18/19 | 19/20

Buddsoddiad sector breifat

🔒

1:1.58 | 1:0.73
18/19 | 19/20

Cymhareb YSP

📁 +7.3%

3,748 | 4,022
18/19 | 19/20

Swyddi wedi'u creu neu eu diogelu




UCHAFBWYNTIAU PERFFORMIAD

Targed pum mlynedd


Lansiwyd Banc Datblygu Cymru ym mis Hydref 2017 gyda'r nod o gael effaith gyffredinol o £1bn ar economi Cymru erbyn 2022. Mae'r graffiau isod yn dangos cynnydd yn erbyn pob un o'n targedau pum mlynedd, rhwng Hydref 2017 a Mawrth 2020.

- Buddsoddiad blynyddol i gyrraedd £80m erbyn 2022
- Cyflawni buddsoddiad gan y sector breifat ar gymhareb o 1: 1.15
- Cefnogi creu neu ddiogelu 20,000 o swyddi
- Cefnogi 1,400 o fusnesau


£ Buddsoddiad




🔒 Buddsoddiad sector breifat



📁 Swyddi




🗨️ Busnesau



Perfformiad buddsoddi 19/20


Buddsodwr tymor hir




Cynyddodd buddsoddiadau dros £1m





Buddsoddiadau ecwiti




Micro Fenthyciadau hyd at £50k




FW Capital




Dadansoddiad rhanbarthol



Datblygu eiddo



Angylion Buddsoddi Cymru



Adroddiad strategol

Llywodraethu

Datganiadau ariannol

MODEL BUSNES

Rydyn ni'n creu gwerth ariannol a chymdeithasol tymor hir trwy ddefnyddio'r cyfalaf rydyn ni'n ei godi, y bobl rydyn ni'n eu cyflogi a'n perthnasoedd â rhanddeiliaid a'r gymuned fusnes. Rydym yn rheoli'r adnoddau hyn yn unol â'n gwerthoedd craidd sy'n gyrru ein hymddygiad wrth gyflawni yn erbyn ein hamcanion a thuag at gyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.

Mae ein gweithgaredd buddsoddi a'r gwasanaethau cysylltiedig, o fudd i fusnesau unigol trwy ddarparu'r cyllid sydd ei angen arnynt, ac economi Cymru trwy annog busnesau i ddechrau a thyfu. Mae cymdeithas Cymru yn elwa pan fydd y busnesau hynny yn creu niferoedd uwch o swyddi mewn cymunedau lleol.

Mae trethdalwyr Cymru yn elwa pan fydd enillion ar fuddsoddiad yn cael eu hailgylchu i gefnogi mwy o fusnes neu eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus.

Rydym yn mesur y gwerth hwn trwy fuddsoddiad uniongyrchol, arian y sector breifat a fuddsoddir ochr yn ochr â ni, creu a diogelu swyddi, datblygu tai ac eiddo masnachol. Rydym yn gweithio i ddeall a mesur effeithiau cymdeithasol ac macro-economaidd ein gweithgaredd ymhellach.

Mae perfformiad cronfeydd unigol yn cael ei fesur yn ôl cronfeydd a fuddsoddiad a chyfalaf yn cael ei ddychwelyd trwy ad-daliadau benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti.

Adnoddau

Cronfeydd

Mae gennym £550m o gyfalaf ar gael i'w ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch datblygu busnes ac eiddo. Gweler tudalen 13.

Pobl

Rydym yn cyflogi 201 o bobl mewn 9 lleoliad ar draws Grŵp Banc Datblygu Cymru. Mae ein tîm yn hanfodol er mwyn cyflawni'r dull wyneb yn wyneb y gwyddom y mae perchnogion busnesau bach yn ei werthfawrogi. Gweler tudalennau 51-52.

Perthnasoedd

Mae meithrin a datblygu perthynas â chwsmeiriaid a rhanddeiliaid yn hollbwysig er mwyn deall y farchnad a diwallu ei hanghenion. Gweler tudalennau 48-50.

Prosesau

Gweithgarwch buddsoddi

Mae ein gweithgarwch buddsoddi yn cwmpasu gwasanaethau rheoli cronfeydd fel buddsoddi a chasglu ad-daliadau ynghyd â swyddogaethau cymorth fel cyllid, marchnata ac adnoddau dynol.

Gwasanaethau eraill

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ein cangen ymchwil, rhwydwaith angylion busnes, gwasanaethau rheoli i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth i Brynu - Cymru a'n busnes rheoli cronfa fasnachol, FW Capital.

Benthyciadau a buddsoddiadau busnes

DEC	ABC	CiB-C	FW Capital	Hunanadeiladu Cymru
-----	-----	-------	------------	---------------------

Effaith

Cyfalaf a ddychwelyd neu ail-fuddsoddiwyd

Swyddi

Buddsoddiad sector preifat

Tai wedi'u hadeiladu

Eiddo masnachol metr sgwar a adeiladwyd

CRONFEYDD

Mae Banc Datblygu Cymru yn rheoli ystod o gronfeydd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu buddsoddiad i fusnesau micro i ganolig ar draws cylch bywyd busnes. Mae'r Banc Datblygu wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i greu cyfres o gynhyrchion sy'n diwallu anghenion y farchnad yn uniongyrchol trwy hygyrchedd a hyblygrwydd o fewn amodau'r farchnad gyffredinol ar y pryd.

Yn ogystal, mae'n darparu datrysiad y gwasanaeth gweinyddol ar gyfer y Cynllun Cymorth i Brynu - Cymru. Yn 2019/20 ymrwymwyd £71m o gyllid newydd i gronfeydd busnes y Banc Datblygu ar draws pum maes cynnyrch, yn ogystal â £36m arall i'r Cynllun Cymorth i Brynu - Cymru.

Cronfeydd ar 31 Mawrth 2020	Swm Cyllido (£m)	Dyddiad Diwedd Buddsoddi
Cronfa Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru	100	2020
Cronfa Dros Dro BMT	9.5	2020
Cymorth i Brynu - Cymru	487	2021
Cronfa Twf Cyfalaf Cymru	25	2021
Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru	8	2023
Cronfa Busnes Cymru	180.9	2023
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru	25	2024
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru	100	2025
Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru II	20	2025
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru	30	2026
Cronfa Eiddo Masnachol Cymru	55	2029
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro	25	2030
Cronfa Safleoedd Segur Cymru	40	2032
Cronfa Datblygu Eiddo Cymru II	32	2033
Hunanadeiladu Cymru	40	2034
Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru	10	2041
Cronfa Ynni Lleol	12.5	Ongoing

FW Capital ar 31 Mawrth 2020	Swm Cyllido (£m)	Dyddiad Diwedd Buddsoddi
Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd (NPIF) Cyllid Dyled - Gogledd Orllewin*	51	2022
Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd (NPIF) Cyllid Dyled Tees Valley & Cumbria*	51	2022
Cronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain	10	2020
Cronfa Catalydd Tees Valley	10	2023

* Yn dilyn 31 Mawrth cytunodd FW Capital Ltd i reoli £40.6m arall o gyllid ar gyfer cronfeydd NPIF, £30.6m ar gyfer ardal y Gogledd Orllewin a £10m ar gyfer ardaloedd Tees Valley a Cumbria



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR BUDDSODDI



Mike Owen
Cyfarwyddwr
Buddsoddi Grŵp

Perfformiad buddsoddi

Cyflawnodd ein tîm o weithwyr proffesiynol buddsoddi berfformiad yn 19/20 a ddaeth â thwf ar draws y busnes, gan ragori ar £100m am y tro cyntaf gyda £103m o gyllid wedi'i fuddsoddi mewn 399 o fusnesau gan helpu i greu a diogelu dros 4000 o swyddi. Yn Lloegr buddsoddodd ein his-gwmni FW Capital £26m i BBaCh Gogledd Ddwyrain a Gorllewin Lloegr.

Rwy'n falch ein bod unwaith eto wedi tyfu cyfeintiau trafodion gyda micro fenthyciadau yn cyfrif am 58% o'r niferoedd hyn. Fe wnaethom hefyd gwblhau ein nifer fwyaf erioed o fargeinion mawr gyda 30 o gwmnïau yn derbyn buddsoddiad o dros £1 miliwn ar draws ystod eang o sectorau gyda 40% o'r rhain yn mynd i mewn i'r sector eiddo a 60% i BBaCh sy'n masnachu, arwydd clir o hyder cynyddol ar draws yr economi cyn effaith pandemig Covid-19.

Datblygu eiddo

Ein sector sydd wedi tyfu gyflymaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu datblygu eiddo, o ran codi arian ac wrth fenthycia. Roedd 19/20 yn flwyddyn arall a oedd ymysg y gorau erioed i'n Tîm Eiddo gyda £34m o drafodion eiddo, gan gynnwys ein buddsoddiad cyntaf o'r Gronfa Eiddo Masnachol Cymru newydd.

Aeth y sector adeiladu i mewn i gyfnod llewyrchus cyn pandemig Covid-19 gan ddangos arwyddion bod yna welliannau yn y farchnad a gwerthoedd datblygu gros yn cynyddu trwy'r cyfnod. Fodd bynnag, ym mis Mawrth gwelwyd y cwmp mwyaf mewn allbwn adeiladu ers 11 mlynedd, a oedd yn bennaf o ran cyflenwad yn hytrach na'r galw, gyda safleoedd ar gau ar ddechrau'r cyfnod clo. Fodd bynnag mae ailagor graddol sy'n ymgorffori mesurau pellhau cymdeithasol wedi taro cynhyrchiant a chafwyd heriau o fewn cadwyni cyflenwi.

Yn ddiweddar gwelsom dystiolaeth fod arianwyr yn ymbellhau o'r gofod datblygu eiddo.

Mae'r ataliad hwn yn ymddangos yn debyg i'r hyn a welsom yn ystod dirwasgiad 2009/10, lle enciliodd benthydwyr o sectorau "risg uwch" canfyddedig fel mater o bolisi. Rydyn ni'n rhagweld y bydd hyn yn gadael bwlch cyllido ym marchnad Cymru, sy'n fwy na'r hyn rydyn ni wedi'i weld dros y pum mlynedd diwethaf. Mae galw mawr o hyd am dai teulu a diffyg yn y cyflenwad yn erbyn targed y Llywodraeth.

Menter newydd arbennig o gyffrous yw Hunanadeiladu Cymru, a lansiwyd ym mis Mawrth ac a reolir gan y Banc Datblygu ar ran Llywodraeth Cymru. Mae ymchwil wedi dangos bod 10% o gartrefi wedi eu hadeiladu o'r newydd yng Nghymru a'r DU gyfan, y tu ôl i weddill Ewrop o ran prosiectau hunan-adeiladu. Mae'r cynllun arloesol hwn wedi'i gynllunio i gael gwared ar y rhwystrau sy'n gysylltiedig â phrosiectau adeiladu adeiladau pwrpasol a hunan-adeiladu ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dyluniadau tai yn ôl archeb, gan dynnu cynllunio, cyllido ac adeiladu at ei gilydd i mewn i un pecyn.

Buddsoddiad ecwiti

Maes mwy heriol o hyd yw ein dyhead hir-dymor i gynyddu swm y buddsoddiad ecwiti yng Nghymru. Yn 19/20 fe wnaethom gyflenwi £16 miliwn i 49 cwmni a chadw ein statws fel un o'r 5 buddsoddwr gorau yn y DU yn ôl cyfaint o drafodion mewn ymchwil a wnaed gan Beauhurst. Mae'r cysylltiad rhwng cyllid ecwiti a thwf economaidd wedi hen ennill ei blwyf ac er y bydd busnesau technoleg cam cynnar yn naturiol yn edrych tuag at ecwiti wrth iddynt adeiladu refeniw, yr her fwyaf yw annog cwmnïau mwy sefydledig i ystyried sut y gall cyfalaf amyneddgar hybu twf a darparu cydnerthedd. Un maes sy'n peri pryder wrth symud ymlaen yw faint o ddyled a gymerir gan fusnesau o ganlyniad i bandemig Covid-19 a allai effeithio ar ragolygon twf trwy gael ei or-ysgogi.

Datgarboneiddio

Cronfa ddiddorol i dynnu sylw ati yw ein Cronfa Ynni Lleol, un o'n cronfeydd llai o ran cyfalaf ond un o'n cronfeydd mwyaf o ran effaith. Cafodd hon ei blwyddyn orau o ran buddsoddiad uniongyrchol gyda £5m yn mynd i mewn i brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach fel ynni gwynt a heulol ar un safle, gyda'r elw o ynni a gynhyrchir yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn y gymuned leol. Mae'r agenda datgarboneiddio yn un yr ydym yn awyddus iawn i'w archwilio ymhellach, naill ai trwy gronfeydd pwrpasol neu trwy ddylanwadu ar ein cwsmeriaid i ystyried sut y gallai prosiect datgarboneiddio wneud synnwyr busnes da.

Perthynas â chwsmeriaid

Nid yw ein holl gefnogaeth ar ffurf buddsoddi, ac ychwanegu gwerth i gwsmeriaid yw prif ffocws ein cydweithwyr portffolio o hyd. Yn 19/20 gwnaethom adolygu a chryfhau'r cynnig hwn i adeiladu busnesau cryfach ar gyfer y dyfodol. Yn hyn o beth, rydym yn canolbwyntio ar ansawdd dros faint ac mae meysydd yn cynnwys annog busnesau i gryfhau ansawdd eu bwrdd neu wella meysydd sy'n hanfodol i fusnesau megis rheoli llif arian, cyllidebu neu farchnata. Cefnogir y mentrau hyn gan ystod eang o ddigwyddiadau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth fel ein fforwm CXO a lansiwyd yn ystod y flwyddyn, wedi'i dargedu tuat at fusnesau technoleg.

Amodau'r farchnad

Daeth hanner cyntaf y flwyddyn ag ansicrwydd Brexit a effeithiodd ar hyder busnes a gwelsom gyfnod o arafu amlwg cyn y Nadolig gan arwain at ganslo neu roi prosiectau ar y silff. Roedd yr ymdeimlad yn gwella yn chwarter cyntaf 2020, ond cydiodd dyfodiad pandemig Covid-19 a bydd hyder heb os, yn her sylweddol am y flwyddyn i ddod.

Roeddwn wrth fy modd gyda'r ffordd yr ymatebodd ein tîm a symud yn gyflym a chefnogi busnesau yn dilyn pandemig Covid-19. Byddai nifer yr ymholiadau yr ymdrinnir â nhw fel rheol yn cynrychioli mwy na 3 blynedd o drafodion. Ar adegau o ansicrwydd rydym yn parhau i fod ar agor i fusnes gyda chyllid a chefnogaeth ar gael trwy gyfrwng ein tîm a'n perthynas agos â'n cydweithwyr yn Busnes Cymru.

Trwy gydol y flwyddyn parhaodd nifer y cyllidwyr amgen, yn enwedig rhai dyled, i dyfu. Tra bo'r amrywiaeth o arianwyr yn y farchnad yn gadarnhaol, mewn rhai achosion rydym yn gweld achosion o or-ysgogi trwy strwythurau cyfalaf amhriodol tebyg i'r rhai a welwyd yn 2009/10. Pan fo busnes wedi cael ei 'gerio' yn uchel, gall newid bach fel colli cyflenwr neu gwsmer allweddol wthio busnes iach at y dibyn ac rydym wedi gweld achosion o fusnesau yn methu o ganlyniad. Ffocws allweddol i Fanc Datblygu Cymru ynghyd â'r rhwydwaith o gynghorwyr Cymru yw tynnu sylw at fanteision buddsoddi mewn ecwiti a all gynnig rhywfaint o gydnerthedd i fusnes.

Y dyfodol

Ym 19/20 fe ddechreuon ni ar y daith i drawsnewid ein gweithrediadau digidol, a dros yr ychydig flynyddoedd nesaf rydym yn bwriadu gwella amseroedd ar gyfer ymdrin â materion a lleihau gwaith papur mewn ymateb i adborth cwsmeriaid. Bydd y rhaglen waith hon nid yn unig yn gwella profiad y cwsmer, ond bydd hefyd yn golygu bod mwy o amser ar gael i'n cydweithwyr ymgymryd â gweithgareddau gwerth ychwanegol i helpu i adeiladu busnesau cryfach.

Bydd hanner cyntaf 20/21 yn brawf pwysig o'n gallu i wella gyda nifer o ffactorau cymhleth ar waith o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae'n galonogol gweld busnesau'n parhau i ddod atom gyda chynlluniau twf ac rydym hefyd yn gweld nifer o fusnesau sy'n dechrau o'r newydd yn ceisio am gyllid; mae hyn yn sbardun pwysig i'r economi yn ystod yr amseroedd ansicr hyn.

Mike Owen
Cyfarwyddwr Buddsoddi Grŵp
29 Gorffennaf 2020



BUDDSODDI A GWASANAETHAU ERAILL

Rydym yn buddsoddi mewn busnesau ledled Cymru i'w helpu i ddechrau, cryfhau a thyfu. Dyma ddetholiad o'r busnesau rydyn ni wedi gweithio â nhw eleni.



Gaea

18 | Dechrau busnes


Cyllid o £1,000 hyd at £5 miliwn i helpu busnesau yng Nghymru i ddechrau ac i gefnogi eu blynyddoedd cynnar.



Costcutter

20 | Tyfu busnes

Trwy ein buddsoddiad a'n cyd-fuddsoddiadau ag eraill, rydym yn cryfhau busnesau Cymru ac yn eu helpu i gyflawni eu cynlluniau twf.



Gwneir penderfyniadau mewn dim ond dau ddiwrnod gwaith ar gyfer busnesau sy'n masnachu ers dwy flynedd neu fwy.


Pembrokeshire Performance Sailing Academy

26 | Benthyciadau llwybr cyflym

Benthyciadau rhwng £1k a £25k ar gyfer busnesau sefydledig Cymru.

28 | Datblygu menter dechnoleg

Rydym yn gwneud buddsoddiadau sbarduno, cam cynnar ac ecwiti dilynol mewn busnesau technoleg sydd â photensial twf uchel.



Health & Her




Snowdrop Independent Living Ltd

34 | Prynu busnes

Ein nod yw cefnogi'r genhedlaeth nesaf o berchnogion busnes trwy ddarparu cyllid i dimau rheoli brynu busnes sy'n bodoli eisoes.

36 | Ariannu datblygiad eiddo

Benthyciadau eiddo preswyl, defnydd cymysg a masnachol o £150,000 - £5m i helpu datblygwyr bach i ganolig.



Lansio cronfa benthyciad datblygu eiddo masnachol newydd.

Coincover

40 | Angylion Buddsoddi Cymru

Mae Angylion Buddsoddi Cymru yn cysylltu buddsoddwyr gyda busnesau Cymru ac mae'n datblygu ecosystem buddsoddwyr yng Nghymru.

42 | Dirnad Economi Cymru

Dirnad Economi Cymru sy'n coladu ac yn dadansoddi data i roi mewnolwg i'r cyflenwad a'r galw am gyllid ym marchnad Cymru a helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o economi ehangach Cymru.

43 | Cymorth i Brynu - Cymru

Cymorth i Brynu - Cymru sy'n darparu benthyciadau ecwiti a rennir i brynwyr cartrefi newydd eu hadeiladu yng Nghymru.



Loorolls.com

44 | FW Capital

Mae FW Capital yn darparu contractau yng Ngogledd Lloegr, gan ehangu ein rhwydwaith a'n henw da ledled y DU. Mae'n rheoli arian ar gyfer Banc Busnes Prydain, Awdurdod Cyfun Tees Valley, LEP y Gogledd Ddwyrain a Santander.

Dechrau busnes

Cyllid o £1,000 hyd at £5 miliwn i helpu busnesau yng Nghymru i ddechrau ac i gefnogi eu blynyddoedd cynnar.

GAEA

Agorodd busnes newydd cynnyrch baddon heb greulondeb Gaea eu siop gyntaf yng nghanol tref Caerffili ddiwedd mis Chwefror 2020, gyda chefnogaeth micro fenthyciad o £10,000 gan Fanc Datblygu Cymru.

Syniad disglair y fentergarwraig leol Bridget Lewis yw'r busnes hwn sydd newydd ddechrau. Fe aeth hi ati i ddefnyddio'r arian i rentu ei siop ac i brynu deunyddiau i wneud ei hamrywiaeth o gynhyrchion baddon a harddwch ynghyd â darparu cyfalaf gweithio yn ystod ei misoedd cyntaf fel busnes newydd.

Pan aeth y Deyrnas Unedig i mewn i gyfnod clo ym mis Mawrth eleni, dim ond am dair wythnos yr oedd siop Bridget wedi bod ar agor. Pan gaeodd ei drysau'r wythnos honno, 'doedd hi ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl dros yr ychydig fisoedd nesaf. Dim ond tri mis yn ddiweddarach, lansiodd siop ar-lein yn danfon cynhyrchion Gaea ledled y DU i ateb y galw, sydd wedi tyfu yn ystod y pandemig.

Digwyddodd y symudiad o siop gorfforol i fanwerthwr ar-lein ar ôl iddi gael ei llethu gan y gefnogaeth gan gwsmeriaid.

"Roeddwn i wir yn meddwl mai 2020 fyddai fy mlwyddyn i, ac felly bu hi, ond nid fel roeddwn i'n ei ddisgwyl. Defnyddiais fy arian fy hun a micro fenthyciad gan y Banc Datblygu i dalu costau cychwynnol, gan gynnwys prynu eitemau rydw i eu hangen er mwyn gwneud ein prif gynhyrchion yn Gaea. Rwy'n falch fy mod i wedi cael y gefnogaeth honno, yn enwedig gan fod cymaint wedi newid i ni fel busnes a'r dirwedd adwerthu yn ei gyfanrwydd mewn cyfnod byr iawn."



Caerffili
£10,000
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru



THE OAKS

Helpodd benthyciad o £400,000 i bontio'r bwlch cyllid ar gyfer cartref gofal newydd The Oaks yn Y Drenewydd, Powys.

Dyluniwyd y cartref gofal ac mae'n cael ei redeg gan y Sandstone Care Group. Mae'r grŵp yn eiddo i weithwyr proffesiynol gofal profiadol, Ben Challinor, James Parkin a Richard Shore.

Fe wnaethant benodi Jen Roberts yn rheolwr cofrestredig y cartref. Mae Jen wedi gweithio'n helaeth yn y sector gofal ac mae ganddi gyfoeth o brofiad yn agor ac yn rheoli cartrefi gofal yng Nghymru yn llwyddiannus.

Roedd y cyfarwyddwyr wedi sicrhau buddsoddiad preifat ond roedd angen cyllid ychwanegol arnynt ar gyfer costau cychwynnol a chyfalaf gweithio.

Mae 73 o welyau ar gyfer pensiynwyr ar gael, gyda ffocws ar ddarparu gofal nyrsio a phreswyl mewn amgylchedd o ansawdd uchel. Mae'r cartref gofal newydd wedi creu 100 o swyddi amser llawn a rhan-amser yn ogystal â darparu cyfleusterau gofal hanfodol ar gyfer ardal canolbarth Cymru.

Mae'r llety'n cynnwys lolfa ac ystafell fwyta fawr ar bob llawr, ynghyd â lolfa dawel ar wahân. Ar y llawr gwaelod mae yna hefyd gaffi

i'w ddefnyddio gan breswylwyr a'u hymwelwyr. Mae yna le cymunedol ychwanegol ar yr ail lawr sydd wedi'i ddodrefnu i'w ddefnyddio fel sinema.

Agorodd y cartref gofal ar 6 Ionawr 2020, gan groesawu ei breswylwyr cyntaf ar yr un diwrnod.

Yn ystod y cyfnod clo i achoswyd gan bandemig Covid-19 ym mis Mawrth eleni, arhosodd staff dan arweiniad Jen yn y cartref i gadw preswylwyr yn ddiogel. Roedd hyn yn caniatáu i The Oaks barhau i gynnig lefel uchel o ofal i'w cymuned, gan leihau'r risg o drosglwyddo'r coronafirws.

Y Drenewydd
£400,000
Cronfa Busnes Cymru

JUST PLAY GOLF

Magwyd Matthew Phythian yn Rhondda Cynon Taf. Fel golffiwr proffesiynol mae ganddo brofiad helaeth o weithio gyda golffwyr ar bob lefel ar ôl cyflawni ei gymhwyster PGA trwy fenter gymdeithasol. Mae'n teimlo'n angerddol ynghylch dod â'r cyfle a'r cysylltiad cymdeithasol hwnnw i eraill yn ei gymuned.

Pan ddaeth safle a oedd yn addas ar gyfer maes golff ar werth yn ei dref enedigol, Penrhys, benthycodd £50,000 gan y Banc Datblygu i gefnogi costau prynu'r tir a'r gosodiadau sy'n angenrheidiol i greu maes taro peli golff a chanolfan hyfforddi. Agorodd Just Play Golf i'r cyhoedd ychydig cyn Nadolig 2019.

Penrhys
£50,000
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru


"I mi, mae chwaraeon, yn enwedig golff, yn ffordd wych o ymgysylltu ag eraill a dysgu sgiliau newydd. Roeddwn i eisiau i eraill yn fy nghymuned gael yr un cyfleoedd a gefais i ennill cymwysterau, a mwynhau'r buddion cymdeithasol ac iechyd mae'r gamp hon yn ei gynnig. Rwyf am roi cyfle i bobl ddod i adnabod ei gilydd ac adeiladu cymuned chwaraeon. Rwy'n credu y gallwn gyflawni hynny diolch i gefnogaeth Banc Datblygu Cymru."

Mae'r gofod cymunedol newydd eisoes wedi derbyn ymateb gwyb gan gymuned Cwm Rhondda a Phenrhys gyda channoedd o aelodau'n cofrestru i ddysgu ac ymarfer eu dulliau, sgiliau pytio a tharo'r bel yn bell.



Tyfu busnes

Trwy ein buddsoddiad a'n cyd-fuddsoddiadau ag eraill, rydym yn cryfhau busnesau Cymru ac yn eu helpu i gyflawni eu cynlluniau twf.



"Mae gennym gyswllt uniongyrchol y gallwn siarad â nhw unrhyw bryd sy'n cynnig cefnogaeth barhaus, ac mae hynny'n bwysig iawn wrth i ni geisio ehangu'r busnes."

Caerdydd
£25,000
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

GREEN & JENKS

Dechreuodd Gilly Pollock Green & Jenks yn 2015 gyda'i mam Shirley a'i merch Harriet. Ail-lansiad oedd hwn o'u busnes llaeth teuluol, sef y 'Roath Park Dairy Company,' a sefydlwyd yng Nghaerdydd ym 1888 gan hen-hen dad-cu Gilly.

Ail-lansiwyd y cwmni yn Nhrefynwy, a dyna lle maent yn gwneud eu gelato arobryn. Fodd bynnag, roedd Gilly yn awyddus i ailagor yng Nghaerdydd lle cychwynnodd y cyfan, a daeth o hyd i eiddo ger lleoliad gwreiddiol y busnes, gyda ffryntiad Fictoraidd yn debyg i'r siop wreiddiol.

Fe wnaethant sicrhau micro fenthyciad gan Fanc Datblygu Cymru i helpu i ariannu agoriad eu siop yn 2019 i gyflymu eu cynlluniau ehangu. Roedd hyn yn cynnwys datblygu eu busnes cyfanwerthu ac agor yr eiddo i gynnal mwy o ddiwyddiadau.





"Rydyn ni'n helpu i fwydo siopau eraill a Threfyclo yn ei chyfanwydd. Mae'n bwysicach nag erioed cadw ein tref farchnad yn fyw ac yn ffynnu."

Knighton
£200,000
Wales Business Fund



COSTCUTTER

Benthycodd Banc Datblygu Cymru £200,000 i John Ewens i gefnogi prynu prydlles ac adnewyddu'r siop Costcutter yn Nhrefyclo, Powys.

Gwelodd John sy'n chwe deg saith oed y cyfle i brynu'r siop fel ffordd i ddychwelyd at ei wreiddiau ddegawd ar ôl rheoli'r siop gyntaf.

Cred John y bydd y siop yn helpu i gadw a dod â phobl newydd i'r stryd fawr yn y dref fach hon yng nghanolbarth Cymru.

Mae siopau cyfleus yng Nghymru yn darparu bron i 23,000 o swyddi i bobl leol. Helpodd y buddsoddiad o Gronfa Busnes Cymru i ddiogelu swyddi 15 aelod o staff.

"Mae'r cyllid hwn yn caniatáu i fy nghynlluniau gael eu gwireddu; prynu'r siop, ailaddurno'r tu allan, diweddarau'r brandio, ailosod yr offer sydd wedi dyddio ac adnewyddiad llawn. Mae cwsmeriaid yn disgwyl cael profiad boddhaol pan fyddant yn mynd i mewn i siop ac mae'n bwysig bod yn gyfartal â'r archfarchnadoedd."



Llanelli
£heb ei ddatgelu
Cronfa Busnes Cymru

"Gyda chymorth Banc Datblygu Cymru, rydym yn gysurus nawr ein bod yn gwybod bod gennym y cyfalaf gweithio sydd ei angen arnom erbyn hyn i ddatblygu ein hamrediad o gynnyrch a'n sianelau gwerthu ledled y DU."

ICKLE BUBBA

Cwsmer presennol – Derbyniodd y cwmni teithio a ffordd o fyw ar gyfer babanod Ickle Bubba fenthyciad dilynol ar gyfer twf ar ôl trafod eu huchelgeisiau gyda'u swyddog portffolio ymroddedig.

Wedi'i sefydlu yn 2013 gan y tîm gŵr a gwraig Fran a Veronica Vaughan, mae Ickle Bubba wedi'i leoli ym Mhonthenri, Llanelli. Mae eu hystod o gynnyrch yn cynnwys seddi ceir, cadeiriau uchel a bownsywyr

llawr. Y cynnyrch sy'n gwerthu orau yw'r system deithio Stomp, sy'n becyn popeth-mewn-un sy'n addas o adeg geni hyd at dair oed.

Gyda chadwyn gyflenwi fyd-eang, mae eu cynhyrchion yn cael eu cludo'n uniongyrchol i ganolfannau dosbarthu cwsmeriaid yn ogystal â warws Ickle Bubba ym Mhonthenri cyn eu gwerthu trwy rwydwaith o stocwyr ledled y DU gan gynnwys nifer o fanwerthwyr

sglodion glas ac annibynnol.

Cawsant fenthyciad chwe ffigur ymlaen llaw gan Fanc Datblygu Cymru yn gynnar yn 2020 i helpu gyda chyfalaf gweithio wrth i'w brand dyfu. Mae hyn yn dilyn buddsoddiad cychwynnol i helpu gyda chostau dechrau a marchnata'r busnes yn 2018.



Llandyfái
£50,000
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

GWESTY NEUADD LLANDYFÁI

Sicraodd gwesty poblogaidd sydd wedi'i leoli mewn llecyn hardd yn Sir Benfro ddyfodol newydd disglair ar ôl cael ei brynu gan y perchennog newydd Robert Jones.

Rhodddwyd gwesty 10 ystafell Neuadd Llandyfái ym mhentref Llandyfái ar werth yn yr hydref yn 2019. Yn ogystal â benthyciad o £50,000 gan Fanc Datblygu Cymru, buddsoddodd Rob ei arian ei hun yn ogystal â sicrhau morgais personol gan NatWest. Roedd y micro fenthyciad gan y Banc Datblygu yn pontio'r bwch rhwng y cyllid yr oedd eisoes wedi'i sicrhau a phris gofyn y gwesty, gan ganiatáu iddo brynu Gwesty Neuadd Llandyfái fel busnes gweithredol.

Roedd y fargen yn diogelu swyddi 12 aelod presennol o staff.

Dim ond dwy filltir o draeth Freshwater East mae'r hen reithordy ac mae'n boblogaidd gyda gwesteion busnes a thwristiaid.

"Pan gododd y cyfle i brynu Gwesty Neuadd Llandyfái fe wnes i neidio amdano. Mae gallu bod yn berchen ar fy musnes fy hun a'i redeg mewn rhan mor brydferth o'r byd yn gwireddu breuddwyd. Dim ond ychydig bach o gyfalaf ychwanegol i wireddu'r freuddwyd honno yr oeddwn i ei angen, ac yn hynny o beth y daeth y Banc Datblygu i'r fei."



Llandysul
Eheb ei ddatgelu
Cronfa Busnes Cymru



TREGROES WAFFLES

Mae Tregoes Waffles wedi bod yn gwneud wafflau yng ngorllewin Cymru ers dros 30 mlynedd. Symudodd Kees Huysmans i Llandysul o'r Iseldiroedd a dechrau cynhyrchu'r danteithion melys poblogaidd o'r Iseldiroedd. Gan fod y cwmni yn dod yn eiddo i'r gweithwyr, fe wnaethant fenthyg chwe ffigur o Gronfa Busnes Cymru a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru, i brynu offer newydd yn haf 2019.

Roedd y peiriannau newydd yn caniatáu i'r cwmni gynyddu'r cynhyrchiad gan fynd o wneud 4,000 o wafflau'r awr i fwy na 10,000 o wafflau'r awr erbyn diwedd 2020.

Helpodd y buddsoddiad i sicrhau swyddi 18 aelod o staff presennol ynghyd â chaniatáu i Tregoes Waffles ateb y galw am eu cynhyrchion gan nifer o archfarchnadoedd sy'n gwsmeriaid newydd.

"Mae'r farchnad yn y DU yn tyfu'n gyflym am flas ein wafflau ac rydym eisoes yn cyflenwi llawer o allfeydd ledled y DU. Mae gallu ychwanegu'r capasiti cynhyrchu hwn i'r becws, yn adeg cyffrous a balch a fydd yn creu sylfaen wych ar gyfer y dyfodol."

OXIS ENERGY

Derbyniodd Oxis Energy o Bort Talbot fuddsoddiad ecwiti gan Fanc Datblygu Cymru i sefydlu'r ffatri weithgynhyrchu gyntaf erioed ar gyfer cynhyrchu deunydd gweithredol electrolyt a chatod, yn benodol ar gyfer masgynhyrchu celloedd sylffwr lithiwm.

Mae celloedd sylffwr lithiwm yn hanfodol ar gyfer nifer o ddefnyddiau ynni glân, gan gynnwys y farchnad ceir trydan a hybrid. Mae'r cwmni'n gweithio i fasgynhyrchu batris trydan sy'n addas i'w defnyddio mewn cerbydau trwm fel bysiau, cerbydau nwyddau trwm, cychod,

hofrenyddion ac awyrennau ysgafn. Mae symud tuag at ddefnyddio ynni glân yn ffordd bwysig o leihau olion traed carbon byd-eang a sicrhau ynni parhaus cynaliadwy.

Yn y cyfnod hwn mae'r cwmni wedi partneru â llywodraeth gwladwriaethol Minas Gerais ym Mrasil, lle mae wedi adeiladu ffatri weithgynhyrchu er mwyn manteisio ar ddyddodion creigiau lithiwm sy'n digwydd yn naturiol yn y rhanbarth i gynhyrchu celloedd Li-S y cwmni.

Mae arfordir gorllewinol y porthladdoedd yng Nghymru, Caerdydd, Casnewydd, Port Talbot ac Abertawe wedi'u lleoli mewn

lleoedd delfrydol ac yn hygyrch ar gyfer allforion i Frasil. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae Oxis yn bwriadu sefydlu danfoniadau rheolaidd rhwng Cymru a Brasil fel rhan o'u cynlluniau twf.

"Rydyn ni eisiau i Gymru, trwy gyfrwng ein cyfleuster ym Mhort Talbot, ddod yn Ganolfan Ragoriaeth y Byd gan arwain y ffordd wrth gynhyrchu celloedd sylffwr lithiwm yn fasnachol ar gyfer systemau batri. Credwn y bydd yn creu swyddi medrus iawn yng Nghymru ac yn helpu i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd."

Port Talbot
Eheb ei ddatgelu
Cronfa Busnes Cymru



Benthyciadau llwybr cyflym

Benthyciadau rhwng £1k a £25k ar gyfer busnesau sefydledig Cymru.


Gall busnesau sydd wedi masnachu am ddwy flynedd neu fwy gael micro fenthyciadau heb lawer o waith papur a chael penderfyniad mewn dim ond dau ddiwrnod gwaith.

Mae benthyciadau hyd at £25,000 wedi bod ar gael heb gynllun busnes ffurfiol ers mis Ionawr 2020.


Cyn hyn, roedd micro fenthyciadau hyd at £10,000 ar gael heb gynllun busnes gyda micro fenthyciadau rhwng £10,000 a £25,000 ar gael gyda chwe mis o ddatganiadau banc a datganiad o asedau a rhwymedigaethau.



benthyciadau llwybr cyflym a fuddsoddiwyd



busnesau a gefnogwyd



cynnydd ar y flwyddyn flaenorol



benthyciadau hyd at £25,000



PEMBROKESHIRE PERFORMANCE SAILING ACADEMY

Fel prif ganolfan hyfforddi hwylio a chychod pŵer y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (CHF) yn ne orllewin Cymru, mae'r 'Pembrokeshire Performance Sailing Academy' yn darparu hyfforddiant ar gyfer selogion lefel mynediad a hwylio perfformiad uchel.

Wedi'i leoli yn Llanion Cove ger Doc Penfro mae'n cael ei redeg gan gyn-hyfforddwr y lluoedd Richard Owens.

Sefydlodd y busnes yn 2013 ar ôl cystadlu yn flaenorol ar lefel Ewropeaidd a Chenedlaethol fel Hyfforddwr gyda Chymdeithas Hwyllo'r Fyddin.

Cawsant ficro fenthyciad o £20,000 i brynu dau gwch hwylio newydd a chwch pŵer ar gyfer ail safle ym Mhentref Gwyliau Carafanau Bourne Leisure yn Lydstep.

Llanion Cove
£20,000
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

MARIO TRUCKER

Benthycodd y cwmni logisteg a thrafnidiaeth busnes-i-fusnes (B2B) Mario Trucker £15,000 i brynu trwydded tryc a gweithredwr newydd.

Mae'r cyfarwyddwr Mariusz Wieszczeński yn rheoli pob

agwedd ar y busnes o'i gyfeiriad cartref ym Merthyr Tudful, ond mae'n ymdrin â chludiant cyffredinol ledled y DU ac Ewrop. Gall Mariusz ddarparu unrhyw fath o gludiant i fusnesau sy'n amrywio o fan fach i loriau gyrru dosbarth 1.

Merthyr Tudful
£15,000
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru

1ST FOR TRAVEL

Mae 1st For Travel yn gwmni llogi bysiau mini wedi'i leoli ym Mhrestatyn, Sir Ddinbych. Maent yn darparu gwasanaethau trafndiaeth ar gyfer llogi cyhoeddus a phreifat sy'n teithio i unrhyw le yn y DU.

Benthycodd y perchennog Timothy Whittaker £10,000 i brynu bws mini mwy er mwyn tyfu'r busnes.

Prestatyn
£10,000
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru

TIR A CHOED

Mae Tir a Choed yn gwmni rheoli llystyfiant, coetir a choedwigaeth. Maent wedi'u lleoli yng Ngwynedd, yn cyflogi staff ac isgcontractwyr lleol. Maent yn darparu rheolaeth coetir a chadwraeth, cynnal a chadw llwybrau, rheoli llystyfiant priffyrdd yn ogystal â gwasanaethau torri gwair a chynnal a chadw tir rheolaidd ledled gogledd Cymru.

Benthycodd y Cyfarwyddwr Amais Taylor £10,000 i brynu peiriannau newydd i gefnogi dod â nifer o wasanaethau yn fewnol i arbed costau i'r busnes ac i gwsmeriaid ynghyd â chefnogi datblygiad pellach y busnes a chynnal cyflogaeth leol.

Gwynedd
£10,000
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru

THE SANDWICH BAR

Wedi'i sefydlu gan Michelle Williams, mae'r Sandwich Bar wedi'i leoli ar risiau Maypole, Caerdybi. Maent yn cynnig bwyd parod poeth ac oer ochr yn ochr â choffi wedi'i falu'n ffres.

Benthycodd Michelle £7,000 i osod ffaniau echdynnu er mwyn cynnig bwydlen ehangach o fwyd poeth i'w chwsmariaid. Defnyddiodd beth o'r benthyciad hefyd i helpu i brynu car i ddarparu gwasanaeth cludo i fusnesau gwyrdd lleol.

Ynys Môn
£7,000
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

Datblygu menter dechnoleg

Rydym yn gwneud buddsoddiadau sbarduno, cam cynnar ac ecwiti dilynol mewn busnesau technoleg sydd â photensial twf uchel.



"Mae gan BookingLive gysylltiadau dwfn â Chymru erioed. Cefais fy magu yng Nghapel Hendre y tu allan i Rydaman, ac mae ein Prif Swyddog Monitro Sam Johnston, sy'n arwain ein gwaith yn America yn dod o Lyn Ebwy. Rwy'n falch iawn o symud pencadlys y cwmni i Gaerdydd wrth inni dyfu ein busnes."



Caerdydd
£500,000
Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru

BOOKINGLIVE

Derbyniodd BookingLive £500,000 fel rhan o rownd gyd-fuddsoddi o £1.3 miliwn Blackfinch Ventures. O ganlyniad i'r fargen fe wnaethant agor pencadlys newydd sbon yng Nghaerdydd.

Wedi'i sefydlu yn 2014 gan y Prif Weithredwr Vinnie Morgan sy'n frodor o Rydaman, mae BookingLive yn darparu meddalwedd bwcio ac archebu ar-lein i dros 700 o gwsmeriaid y sector breifat a chyhoeddus. Mae cleientiaid ei system Enterprise yn cynnwys Microsoft, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dyson, BMW, Universal Music Group, Greene King, Transport for London a dros 50 o awdurdodau sector cyhoeddus ledled y DU."

Mae sylfaen cwsmeriaid y cwmni yn ehangu'n gyflym diolch i system archebu 'freemium' Connect newydd, a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer perchnogion busnesau bach ac sydd bellach yn cael ei defnyddio ar draws pedwar deg pump o wledydd. Yn ddiweddar, mae BookingLive

hefyd wedi agor swyddfa loeren yn Charlotte, Gogledd Carolina i ganolbwyntio ar ehangu yn yr Unol Daleithiau. Yn dilyn llwyddiant cynnyrch BookingLive Enterprise gyda chynghorau lleol ledled y DU, mae 100,000 o asiantaethau sector cyhoeddus America yn cael eu hystyried yn farchnad arbennig o bwysig i'r cwmni.

Yn dilyn y cyhoeddiad am y pandemig byd-eang Covid-19 ym mis Mawrth, addasodd y cwmni eu meddalwedd archebu i gefnogi ymdrechion i ffrwyno'r coronafirws. Roedd systemau penodi ar gyfer llywodraeth leol a byrddau iechyd yn cynnwys archebion canolfannau ailgylchu gwastraff, rheoli capasiti manau gwyrdd a rheoli ymwelwyr. Fe wnaethant hefyd gymryd rhan yn y categori 'Empowerment, Solidarity in Action' am eu datrysiad Co-ordinate-19 yn y Global Hackathon i ddarparu atebion i'r Pandemig Covid-19 yn Efrog Newydd. Nhw oedd yr unig dîm o Brydain yn y datrysiadau 10 Uchaf yn fyd-eang.



LITELOK

Mae Litelok yn dylunio, datblygu a chynhyrchu cynhyrchion gwrth-ladrad ac yn darparu diogelwch lefel uchel ar gyfer beiciau gan ddefnyddio deunyddiau ysgafn. Mae dwyn beic yn broblem fyd-eang sy'n tyfu ac mae cloeon diogel yn feichus, yn drwm ac yn anymarferol. Mae'r cynhyrchion ysgafnach Litelok wedi dod yn boblogaidd gyda'r gymuned feicio. Mae sgôr yswiriannol ar bob un o'u cynhyrchion.

Abertawe
Eheb ei ddatgelu
Cronfa Busnes Cymru

Mae'r cloeon, sy'n costio o £60 ac sy'n cynnwys un ar gyfer beiciau modur sy'n gwneud i ffwrdd â chadwyni trwm, o fewn casin dur cryfder tynol gyda rhybedion gradd morol a strapiau wedi'u gwneud o Boaflexicore – cyfansawdd dur a pholymer y mae'r cwmni wedi'i ddatblygu a'i batentio.

Yn dilyn buddsoddiad cychwynol ochr yn ochr ag angyllion busnes yn 2017, fe wnaethom gymryd rhan mewn cylch cyllido dilynol mwy ochr yn ochr â Venrex yn gynnar yn 2020 i gefnogi cynyddu eu graddfa ac estyniadau i'r amrediad cynnyrch.



HEALTH & HER


Mae Health & Her yn arbenigo mewn iechyd merched, gan dargedu'r farchnad menopos yn benodol. Sefydlwyd y cwmni yn 2017, lansiodd eu platfform B2C e-fasnach ym mis Mawrth 2019.

Yn yr hydref 2019 fe wnaethant sicrhau cyd-fuddsoddiad chwe ffigur o dan arweiniad angel o Gronfa Sbarduno Technoleg Cymru, Banc Datblygu, gyda chefnogaeth Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru.

Fe wnaethant hefyd sicrhau cyllid ychwanegol trwy syndicetiau angylion cyflenwol, Global Welsh ac Inspire.

Maent yn defnyddio cyllid ecwiti i ddatblygu ystod o gynhyrchion a gwasanaethau newydd ym marchnad gofal iechyd menywod

"Rydym yn gweld twf sylweddol o fis i fis sydd wedi cael hwb yn sgil y cyllid ecwiti a gawsom."



Caerdydd
Ehebeiddatgelu
Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru



QUOTE ON SITE

Sicrhaodd QuoteOnSite, busnes technoleg newydd ddechrau o Abertawe, gyfanswm buddsoddiad o £350,000 mewn cylch cyllido sbarduno cychwynnol.

Buddsoddodd y cyd-fuddsoddwr angel, Deri Green, £200,000 gyda £149,500 arall o ecwiti yn dod o Gronfa Sbarduno Technoleg Cymru. Cyflwynwyd Deri Green i'r buddsoddiad trwy Angylion Buddsoddi Cymru - rhwydwaith angylion busnes 'Banc Datblygu Cymru'.

Mae QuoteOnSite yn blatfform sy'n symleiddio'r broses rheoli dyfynbrisiau ar gyfer busnesau o bob maint, o fusnesau newydd i fentrau sefydledig. I fusnesau sy'n dal i ddibynnu ar ddulliau

traddodiadol o ddyfynnu mae QuoteOnSite yn darparu ateb i'r diffyg gwelededd, olrhain a dadansoddeg sy'n rhan annatod o broses werthu lwyddiannus. Gall cwsmeriaid gyflenwi eu data a dewis o ddewislen o gynhyrchion yn uniongyrchol ar wefan y 'busnes' trwy ffurflen gyswllt integredig. Mae hyn yn lleihau'r amser sy'n cael ei wastraffu ar ddyblygu mewnbynnu data o ffurflenni cyswllt traddodiadol i systemau lawrlif CRM.

Nododd y tîm gŵr a gwraig y tu ôl i QuoteOnSite, TJ ac Elaine Amas, yr angen am declyn dyfynnu yn y diwydiant masnach ac adeiladu. Ar ôl dwy flynedd o weithio ar ddatblygu a phrofi, lansiodd QuoteOnSite yn swyddogol yn 2017.

Ers hynny mae eu teclyn wedi'i addasu i'w ddefnyddio ar draws sawl sector ac mae'n galluogi unrhyw fusnes neu unig fasnachwr i ddarparu dyfynbrisiau hygrych i gwsmeriaid. Fe wnaethant chwilio am gyllid ecwiti trwy Angylion Buddsoddi Cymru a'r Banc Datblygu i fynd â'u gweledigaeth i'r lefel nesaf.

Fe wnaeth y rownd sbarduno £350,000 alluogi'r busnes i logi staff newydd a hefyd cefnogi ymchwil profiad defnyddiwr, a datblygu meddalwedd.

"Mae'r buddsoddiad wedi ein galluogi i dyfu tîm o'n cwmpas i wneud y cynnyrch y gorau y gall fod."

Abertawe
£149,500
Angylion Buddsoddi
Cymru a Chronfa Sbarduno
Technoleg Cymru



Prynu busnes

Ein nod yw cefnogi'r genhedlaeth nesaf o berchnogion busnes trwy ddarparu cyllid i dimau rheoli brynu busnes sy'n bodoli eisoes.



NOLAN UPVC

Mae saer yng Nghaerfyrddin wedi helpu ei dîm rheoli i gwblhau allbryniant rheoli gwerth miliynau (AllRh) o'r cwmni gwydro dwbl a sefydlodd ym 1989.

Wedi'i ariannu gan Fanc Datblygu Cymru gyda chymysgedd o fenthyciad ac ecwiti, mae tîm rheoli Nolan uPVC arobryn wedi prynu'r busnes gan y sylfaenydd, Nolan Nicholas.

Mae gan y tîm AllRh Paul Murphy, Adrian Phillips a Jason James brofiad cyfunedig o dros 80 mlynedd gyda Nolan.

"Rydym yn fusnes teuluol agos sydd â gwerthoedd ac egwyddorion Nolan wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'r cyllid gan Fanc Datblygu Cymru wedi gwneud y fargen hon yn bosibl ac mae eu cefnogaeth barhaus fel cyfranddaliwr yn golygu ein bod yn edrych ymlaen yn fawr at yr hyn sydd gan y dyfodol i'w gynnig."

Caerfyrddin
Èheb ei ddatgelu
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru



SNOWDROP INDEPENDENT LIVING LTD

Cwblhaodd perchnogion newydd cymhorthion symudedd arbenigol Snowdrop Independent Living Ltd allbryniant gan y rheolwyr (AllRh) yn dilyn cefnogaeth fuddsoddi gan Fanc Datblygu Cymru. Mae hyn ar ben buddsoddiad chwe ffigur gan y Banc Datblygu yn 2018/19.

Mae'r busnes yn arbenigo fel manwerthwr a dosbarthwr cymhorthion symudedd, gan gynnwys lifftiau grisiau a chadeiriau orthopedig, ac fe'i sefydlwyd 20 mlynedd yn ôl gan Peter O'Shea.

Dechreuodd fel ystafell arddangos unigol yn Hwlfordd cyn ehangu ymhellach i dde Cymru gyda siopau yn Abertawe a Phenarth. Ers i'r Banc Datblygu gefnogi'r AllRh, mae'r cwmni hefyd wedi agor siop newydd yng Nghaerdydd a thair cangen arall yng Nghanolbarth Lloegr.

Arweiniwyd y tîm allbryniant rheolwyr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr newydd David Morgan.

"Fe wnaethon ni gwrdd ag uwch reolwyr ac adeiladu'r tîm allbrynu. Fe wnaeth Banc Datblygu Cymru ein harwain ar sut i fynd ati i adeiladu cynnig a fyddai'n gweithio i ni a'r banc. Fe wnaeth yr help a'r cyngor a gynigiwyd ac a dderbyniwyd yn ddiolchgar drwy'r cam hwn ein helpu i gyflawni'r AllRh."

Hwlfordd
Èheb ei ddatgelu
Cronfa Olyniaeth
Rheoli Cymru

YARD

Mae'r asiantaeth data a marchnata digidol Yard wedi cwblhau mewnbryniant rheoli gwerth £1.3 miliwn (MRh) gyda chymorth Banc Datblygu Cymru. Mae hon yn rhan o strategaeth olyniaeth hirdymor a roddwyd ar waith gan y busnes.

Sefydlwyd Yard Associates yn 2006 yng Nghaerdydd gan y Cyfarwyddwyr sefydlu Stephan Briggs a Paul Newbury a gyfarfu gyntaf wrth weithio gyda'i gilydd ym Manc Lloyds.

Yn arbenigo mewn darparu dadansoddiad o ymddygiad defnyddwyr sy'n cael ei yrru gan ddata, mae Yard bellach yn cyflogi 49 o bobl. Ymhlith y cwsmeriaid mae Sainsbury's Bank, Sage, Camelot, British Gas a Mazars.

Mae Banc Datblygu Cymru wedi cymryd ecwiti fel rhan o'r buddsoddiad o £1.3 miliwn wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Mae hyn yn dilyn buddsoddiadau cynharach gwerth cyfanswm o £570,000.

"Gyda chefnogaeth ariannol y Banc Datblygu, rydym wedi canolbwyntio ar strwythuro ein busnes ar gyfer y dyfodol i'n galluogi i gyflawni ein gweledigaeth."

Caerdydd
£1.3 miliwn
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru



Ariannu datblygiad eiddo

Benthyciadau eiddo preswyl, defnydd cymysg a masnachol o £150,000 – £5m i helpu datblygwyr bach i ganolig.



Y Barri
£1.13miliwn
Cronfa Safleoedd Segur Cymru



"Rydyn ni'n dod ag adfywio cynaliadwy i gymunedau ledled Cymru. Nid yw ein datblygiadau yn brosiectau digymeriad y tu allan i'r dref. Nid ydym yn ddatblygwyr lle mae bob dyluniad o'n tai yn adlewyrchiad diflas o bob un arall. Dyna'r peth gwych am weithio gyda'r tîm ym Manc Datblygu Cymru, maen nhw'n deall ein hanian ni ac yn barod i roi eu harian lle mae eu geiriau i sbarduno newid go iawn."

THE GOODS SHED

Mae adeilad rheilffordd Fictoraidd adfeiliedig na ddefnyddir bellach wedi cael bywyd newydd fel canolfan adloniant a busnes yn Y Barri diolch i fargen gwerth £1.13 miliwn gan Fanc Datblygu Cymru.

Mae'r sied nwyddau o'r 1880au ar Hood Road, Y Barri yn rhan o'r Chwarter Arloesi yng Nglannau'r Barri, menter adfywio ar y cyd rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru.

Bydd y cynllun defnydd cymysg yn cynnwys pentref cynhwysyddion cludo a chyffadeiladau o fflatiau.

Syniad penigamp Simon Baston, Rheolwr Gyfarwyddwr DS Properties (Goods Shed) Limited yw'r prosiect, gan fasnachu fel Loft Co. Mae wedi gweithio o'r blaen gyda'r Banc Datblygu ar gynlluniau adnewyddu eraill gan gynnwys y Tŷ Pwmp (Pumphouse).



Adroddiad strategol

Llywodraethu

Datganiadau ariannol



Caernarfon
Eheb ei ddatgelu
Cronfa Eiddo Cymru

BEECH DEVELOPMENTS

Mae cynllun preswyl newydd gan Beech Developments yng Nghaernarfon yn darparu 23 o dai fforddiadwy newydd i'r gymdeithas dai Adra fel rhan o ddatblygiad eiddo 45 o dai yn y dref.

Cefnogwyd ochr fasnachol y datblygiad gyda benthyciad tymor byr gan Fanc Datblygu Cymru.

Roedd saith deg y cant o'r tai ar werth eisoes wedi'u gwerthu 'oddi ar y cynlluniau' i aelodau'r gymuned leol erbyn mis Medi 2019.

Dywedodd Matthew Gilmartin, Rheolwr Gyfarwyddwr Beech Developments fod y gefnogaeth i ochr fasnachol y datblygiad yn eu helpu i gyflawni'r datblygiad cyfan, gan gynnwys ateb y galw am stoc dai lleol.

"Mae angen lleol amlwg am gartrefi newydd o safon yng Nghaernarfon ac rydym yn falch o allu helpu i ateb y galw hwnnw gyda'n datblygiad. Rydym wedi gweld bod y tîm yn y Banc Datblygu yn hynod gefnogol i'r busnes ac yn edrych ymlaen at weithio hefo nhw yn y dyfodol."

Cwblhawyd y tai cyntaf yn natblygiad cartrefi dwy, tair a phedair ystafell wely yn gynnar yn 2020.

HAYWOOD HOMES

Derbyniodd Haywood Homes fenthyciad o £0.9 miliwn gan ein tîm datblygu eiddo i weithio ar ddatblygiad eiddo preswyl yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r benthyciad hwn yn rhan o gyfleuster £3m.

Mae'r benthyciad datblygu eiddo yn cefnogi adeiladu 17 cartref newydd yn Nhycroes, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r safle'n cynnwys cymysgedd o dai a byngalos pedair a phum ystafell wely. Mae datblygiad Llys Tirnant wedi'i leoli mewn lleoliad o fath pentref gyda mynediad hawdd at yr M4. Gyda phrisiau'n dechrau ar £275,000, mae'r cartrefi newydd yn cyfuno dyluniad cyfoes effeithlon o ran ynni, gofynion cynnal a chadw isel a gorffeniad manyleb uchel.

"Yn union fel Banc Datblygu Cymru, rydym yn ymfalchïo mewn darparu'r lefel uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid a gwneud y broses mor hawdd â phosibl i'n cwsmeriaid. Mae'r tîm yn y Banc Datblygu yn sicr wedi cwrdd â'n disgwyliad a gobeithio y byddai ein cwsmeriaid ninnau yn dweud yr un peth amdanom ninnau hefyd."

Tycroes
£0.9 miliwn
Cronfa Eiddo Cymru



ELLIS DEVELOPMENTS (WALES) LTD

Dechreuodd y gwaith ar drydydd cam Ystâd Ddiwydiannol Glan yr Afon yn Aberystwyth ym mis Ionawr 2020 ar ôl i'r datblygwyr Ellis Developments sicrhau'r buddsoddiad cyntaf o Gronfa Eiddo Masnachol Cymru.

Sicrhodd Ellis Developments o Aberystwyth y benthyciad i gefnogi datblygiad blociau pump a chwech ym Mharc Melin, trydydd cam Ystâd Ddiwydiannol Glan yr Afon yn Aberystwyth. Bydd 12 uned

sy'n gyfanswm o 1,571 sq M o ofod diwydiannol a masnachol ysgafn hapfasnachol yn ychwanegu at yr 17 uned bresennol; mae pob un ohonynt wedi'u gwerthu neu wedi'u gosod i denantiaid gan gynnwys Greggs a Tool Station.

Datblygiad Glan yr Afon yw'r brif ystâd fasnachu yn yr ardal gyda chymysgedd o ddeiliaid modern a diwydiannol ysgafn a warws a defnyddwyr swyddfa.

"Mae'r cyllid hyblyg wedi'i deilwra gan Fanc Datblygu Cymru wedi ein galluogi i ddatblygu'r safle hwn yn gyfan gwbl ar ôl llenwi'r ddau gam cyntaf yn llwyddiannus. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da ar y datblygiad hapfasnachol hwn a bydd 12 uned ychwanegol ar gael i'w prynu neu eu rhentu yn ddiweddarach yn 2020."

Aberystwyth
Eheb ei ddatgelu
Cronfa Eiddo Masnachol Cymru



Angylion Buddsoddi Cymru
Angels Invest Wales

Angylion Buddsoddi Cymru
Angels Invest Wales

Angylion Buddsoddi Cymru yn cysylltu buddsoddwyr gyda busnesau Cymru ac mae'n datblygu ecosystem buddsoddwyr yng Nghymru.



COINCOVER

Wedi'i lansio yn 2018 gan yr arloeswr bloggadwyn David Janczewski a'r arbenigwr diogelwch technoleg Adam Smith, mae Coincover yn darparu gwasanaethau arian cyfred crypto arbenigol i ystod o gwsmeriaid gan gynnwys banciau stryd fawr fel Lloyds.

Mae Banc Datblygu Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru wedi cefnogi'r cwmni i godi dros £500,000 drwy fuddsoddiad angel, arian cyfatebol gan Gronfa Gyd-fuddsoddi Angylion ochr yn ochr â £400,000 o Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru.

Maent wedi defnyddio'r arian i dyfu eu cwmni a gweithio ar ddatblygu ystod o atebion diogelwch digidol ar gyfer y farchnad arian cyfred crypto.

Ym mis Tachwedd lansiodd y cwmni'r cynnyrch Ewyllys Digidol gyntaf erioed ar gyfer waledi arian cyfred crypto, manau storio ar-lein ar gyfer bitcoin ac arian cyfred bloc

gadwyn eraill a elwir yn aml yn waledi poeth – gan ganiatáu i'r rhai sy'n berchen ar arian cyfred crypto i drosglwyddo eu hasedau yn ddiogel i rywun annwyl ar ôl iddynt farw.

Ym mis Mawrth sicrhodd y cwmni hwb ychwanegol gyda Lloyd's of London yn cyhoeddi eu cefnogaeth trwy warchodaeth yswiriant atebolrwydd newydd ar gyfer waledi poeth. Cafodd y polisi atebolrwydd cyntaf o'i fath, gyda therfynau hyblyg o gyn lleied â £1,000, ei greu gan syndicad Atrium Lloyd's ar y cyd â Coincover i warchod rhag colledion sy'n deillio o ddwyn arian cyfred crypto a gedwir mewn waledi poeth ar-lein.

O'i Bencadlys yng Nghaerdydd, mae Coincover bellach yn ehangu ei rwydwaith partneriaeth ledled y byd yn gyflym ac yn sefydlu ei hun fel y brand Rhif un ym maes diogelwch Crypto.

Caerdydd
£heb ei ddatgelu
Cronfa Gyd-fuddsoddi Angylion



"Mae'r cymorth gan Angylion Buddsoddi Cymru wedi bod yn anhygoel ac ni fuaswn yn y sefyllfa yr wyf yn awr hebdo."



Wrecsam
£150,000 o
fuddsoddiad angel
Angylion Buddsoddi Cymru

TODDLE

Mae Toddle, cwmni newydd ddechrau wedi'i leoli yn Wrecsam, yn gwneud cynhyrchion gofal croen sy'n addas i blant ac o ffynonellau moesegol. Ymhlith y rhain mae balm gwefus gwrth-lafoerio ar gyfer babanod, balm haul a gwynt a ddyluniwyd i amddiffyn bochau babanod, a gel llaw probiotig.

Mae sylfaenydd y cwmni, Hannah Saunders a'i gŵr yn frwd dros chwaraeon teithio ac antur. Ond pan ddaethant yn rhieni, gwelsant nad oedd unrhyw gynhyrchion

gofal croen y gallent fynd â nhw gyda nhw ar eu gwibdeithiau a oedd yn addas ar gyfer plant ifanc.

Gan sylwi ar fwch yn y farchnad, gadawodd Hannah yr RAF yn 2017 a threuliodd y 18 mis nesaf yn gwneud ymchwil i'r farchnad ac yn datblygu cynhyrchion y cwmni.

Ar ôl symud i Ogledd Cymru gweithiodd Toddle gydag Angylion Buddsoddi Cymru i sicrhau £50,000 gan syndicet trwy gyfrwng eu plattform. Derbyniodd y busnes fuddsoddiad

o £200,000 yn y flwyddyn flaenorol a £50,000 hefyd trwy ennill cystadleuaeth 'Pitch it Cymru.'

Cefnogodd y cyllid lansiad eu hamrediad o nwyddau gofal croen yn haf 2019 a chreu tair swydd newydd. Mae Toddle wedi mwynhau blwyddyn lwyddiannus ym myd busnes ac yn 2020 lansiodd eu hystod glanweithdra dwylo newydd ar gyfer gweithwyr y GIG – 'Heroes'.



Adroddiad strategol

Llywodraethu

Datganiadau ariannol

Dirnad Economi Cymru

Dirnad Economi Cymru sy'n coladu ac yn dadansoddi data i roi mewnlwg i'r cyflenwad a'r galw am gyllid ym marchnad Cymru ac yn helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o economi ehangach Cymru.

Mae Dirnad Economi Cymru yn dwyn ynghyd ystadegau economaidd ac ymchwil ar lefel BBaCh. Mae ei ymchwil yn rhoi mewnlwg i'r cyflenwad a'r galw am gyllid ym marchnad Cymru yng nghyd-destun economaidd ehangach Cymru.

Mae Dirnad Economi Cymru yn gydweithrediad unigryw rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ysgol Busnes Caerdydd sy'n arwain ar gynhyrchu'r allbynnau ymchwil, gyda grŵp llywio DEC yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri sefydliad, yn ogystal â StatsCymru a Llywodraeth Cymru.

Office for
National Statistics
Swyddfa
Ystadegau Gwladol

CARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGOL
CAERDYDD
Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd

Banc
BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

Uchafbwyntiau perfformiad

Cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru ei Adroddiad Blynyddol cyntaf.

Adroddiad Blynyddol DEC, Awst 2019



Mae pob £1m o fuddsoddiad Banc Datblygu Cymru yn cynhyrchu £2.3m o GYG i Gymru.

Er bod ansicrwydd yn y farchnad, hyder BBaCh Cymru oedd yr uchaf yn y DU yn gyson gyda mwy ohonynt â chynlluniau i dyfu tan y dirywiad sylweddol yn Ch3 2019.

Dirnad Economi Cymru Economic Intelligence Wales



Mae Adroddiadau Chwarterol Dirnad Economi Cymru wedi parhau i goladu a dadansoddi data ar lefel economaidd a BBaCh. Cipiodd yr adroddiad diweddar ddata allweddol cyn i'r pandemig daro Cymru:

- Roedd 22.5% o BBaCh Cymru yn bwriadu lleihau maint eu gweithgaredd a'u staff, yr uchaf o BBaCh y DU, cyn pandemig Covid-19.
- Cymru oedd â'r gyfradd marwolaeth busnes ail isaf a'r gyfradd orosi tair blynedd ail uchaf yn y DU cyn y pandemig.

Adroddiad Chwarterol DEC, Hydref 2019 Adroddiad Chwarterol DEC, Chwefror 2020 Adroddiad Chwarterol DEC, Ebrill 2020

Mae'r Adroddiadau Pwrpasol a gynhyrchwyd eleni yn cynnwys:

- 'Busnesau maint canolig a strwythur busnes Cymru.' Mae cymariaethau rhyngwladol yn dangos nad oes strwythur busnes gorau posibl ond ond mae Cymru ar ei hôl hi o ran twf a chynhyrchedd cwmnïau canolig ar draws pob diwydiant heblaw cynhyrchu.
- 'Briffiad: Olyniaeth Busnes yng Nghymru.' Dechreuad prosiect ehangach ar olyniaeth busnes yw'r adroddiad byr hwn ac adroddwyd bod 11% o gyfarwyddwyr BBaCh yn agos at 'oedran ymddeol'.
- Cynorthwydd Dirnad Economi Cymru Lywodraeth Cymru hefyd gydag ymchwil ar fancio cymunedol yng Nghymru ar themâu penodol Cydraddoldeb, Mynediad ac Ymddiriedaeth.

Briffiad adroddiad pwrpasol – Olyniaeth Busnes yng Nghymru

Adroddiad pwrpasol – Cwmnïau maint canolig a strwythur busnes Cymru, Tachwedd 2019

Cymorth i Brynu – Cymru

Cymorth i Brynu – Cymru sy'n darparu benthyciadau ecwiti a rennir i brynwyr cartrefi newydd eu hadeiladu yng Nghymru.



Bellach yn ei chweched flwyddyn mae'r cynllun yn cefnogi prynu cartrefi newydd eu hadeiladu hyd at £300,000 wedi'u prynu trwy adeiladwr Cymorth i Brynu – Cymru (CiB-C) cofrestredig. Mae'r cynllun yn sicrhau bod cartrefi newydd eu hadeiladu ar gael i bob prynwr cartref (nid prynwyr tro cyntaf yn unig) ond gallant gael eu cyfyngu wrth wneud hynny.

Mae cefnogaeth o hyd at uchafswm o 20% o'r pris

prynu ar gael i brynwyr trwy fenthyciad ecwiti a rennir a ariennir gan CiB-C, tra bo gofyn i brynwyr ddarparu blaendal sy'n o leiaf 5% o'r pris prynu.

Mae bron i £400m (£399.5m) wedi'i fenthycu i gefnogi gwerthiannau eiddo o £2bn.

Cyrhaeddodd cyfanswm y tai a werthwyd trwy'r cynllun 10,517 a gwerthwyd 76.5% i brynwyr tro cyntaf.



Cyfanswm effaith ers lansiad y cynllun y 2014



FW Capital

Mae FW Capital yn darparu contractau yng Ngogledd Lloegr, gan ehangu ein rhwydwaith a'n henw da ledled y DU. Mae'n rheoli arian ar gyfer Banc Busnes Prydain, Awdurdod Cyfun Tees Valley, LEP y Gogledd Ddwyrain a Santander.



LOOROLLS.COM

Benthycodd cyfanwerthwr a chyflenwr eitemau papur a chynhyrchion porthorion swmpus, loorolls.com £150,000 trwy NPIF – Cronfa Cyllid Dyled FW Capital yn Rhagfyr 2019. Aethant ati i ddefnyddio'r arian i brynu a symud i warws mwy, gyda mwy o le racio a storio.

Roedd yr eiddo mwy yn golygu eu bod yn gallu cynyddu eu cynnyrch glanhau allweddol a'u cyflenwadau o gynnyrch toiled hanfodol eraill yn sylweddol yn ystod pandemig coronafirws Covid-19 yn gynnar yn 2020.

Yn dilyn buddsoddiad gan FW Capital, llwyddodd y cwmni i gymryd nifer o staff ychwanegol i'w helpu i gwrdd â chynnydd o 75% yn y galw yn Ch1 2020.

"Mae'r chwistrelliad arian parod o FW Capital wedi helpu ein busnes i ehangu mewn meysydd newydd ac wedi helpu gyda'r galw am ein hystod eang o gynhyrchion, ac mae caffael eiddo newydd yn rhan o'r twf hwn. O'r cyswllt cychwynnol i gwblhau'r fargen, mae wedi bod yn broses esmwyth."

Heswall
£150,000
NPIF – Cyllid Dyled FW Capital



Redcar
Eheb ei ddatgelu
NPIF – Cyllid Dyled FW Capital



"Bydd y buddsoddiad hwn yn ein helpu i ddatblygu ein harweiniad technol mewn peirianeg protein ac amharu ymhellach ar y farchnad. Rydym yn ddiolchgar i FW Capital am gydnabod y cyfle a'i holl gefnogaeth."

ABSOLUTE ANTIBODY

Mae Absolute Antibody yn arbenig mewn dilyniannu, peirianeg a chynhyrchu gwrthgyrff ailgyfunol ac mae'n cynnig gwasanaethau peirianeg protein cysylltiedig.

Bellach wedi'i leoli yn Nyffryn Tees, roedd Absolute Antibody yn gweithredu o swyddfeydd a labordai yn Swydd Rhydychen i

ddechrau, ond wrth iddo ehangu symudodd ei labordai yn y DU i Ganolfan Wilton, Redcar. Yn 2018, dyblodd y cwmni ei ofod labordy, cynyddodd ei staff i 30 ac ehangu i UDA trwy uno â Kerfast Inc, a leolir yn Boston, Massachusetts.

Mae'r tîm rheoli, dan arweiniad Nicholas Hutchings, bellach wedi

ychwanegu trydedd linell gynhyrchu yn eu labordy yng Nghanolfan Wilton i sicrhau'r gallu i dyfu. Bydd y buddsoddiad chwe ffigur o NPIF – Gyllid Dyled FW Capital hefyd yn cael ei ddefnyddio i uwchraddio ei feddalwedd rheoli TG a labordy a chreu pum swydd newydd.

Manceinion
£400,000
NPIF – Cyllid Dyled
FW Capital



GENIUS GROUP

Mae Genius Group o Fanceinion wedi datblygu system Adnoddau Dynol o'r radd flaenaf ar gyfer ymgeiswyr a chyflogwyr sy'n symleiddio'r broses recriwtio trwy ap a phorth cefnol. Ychydig funudau yn unig y mae'n ei gymryd i ymgeiswyr uwchlwytho eu gwybodaeth a chael eu paru â rolau addas. Mae cyflogwyr yn elwa o ddatrysiad cefnol gydag Deallusrwydd Artiffisial (DA) wedi'i ymgorffori ynddo sy'n dewis ymgeiswyr addas. Mae'r system hefyd yn cynnig cyfleuster cyfweld fideo ac yn cynhyrchu dogfennaeth a chontractau cyflogaeth.

Cawsant fenthyciad o £400,000 o'r Gronfa NPIF Dyled Cyfalaf FW Capital yn gynnar yn 2020 i logi pum aelod o staff ac i gefnogi marchnata, hysbysebu a datblygu cynnyrch yn barhaus.

"Mae ein cynnyrch yn lleihau costau ac amser recriwtio yn sylweddol. Er enghraifft, rydym yn gwybod o weithio gydag Ysbyty Addysgu Leeds y gallwn leihau'n sylweddol yr amser y mae'n ei gymryd i recriwtio staff newydd o 90 diwrnod ar gyfartaledd i ddim ond 18. Roedd FW Capital yn ddiwyd yn eu dull gweithredu cyn buddsoddi, gan ddangos gwir ddiddordeb ynom ni fel busnes. Maen nhw'n credu yn ein gwledigaeth."

CENERGIST

Mae Cenergist yn gwmni effeithlonrwydd ynni a dŵr arbenigol sy'n gweithio ledled y DU, Ewrop, India a'r Ddwyrain Canol i helpu cleientiaid cyhoeddus a phreifat i sicrhau arbedion ynni, dŵr ac ariannol.

Fel cefnogwr dros gyfnod hir i Cenergist, darparodd FW Capital fenthyciad mesanîn o £350,000 yn gyntaf trwy'r Gronfa Twf a Mwy'r Gogledd Ddwyrain yn 2015, a'i galluogodd i ddod yn ddsbarthwr unigryw dyfais cawod smart arbed arian.

Yn 2017 sicrhaodd y cwmni sy'n ehangu ar y buddsoddiad o £515,000 gan NPIF - Cyllid Dyled FW Capital, a reolir gan FW Capital a rhan o Gronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd, i sefydlu swyddfa newydd yn Nyffryn Tees a chreu swyddfa a refeniw newydd.

Darparwyd benthyciad arall o 235,000 gan NPIF - Cyllid Dyled FW

Capital yn 2018 i gefnogi cynlluniau Cenergist i ehangu ei gylch gwaith ymhellach i atebion gosodedig o uwchraddio goleuadau i LED cost isel ar gyfer endidau masnachol. Yn ogystal â datblygu llif refeniw newydd, bydd y cyllid yn galluogi'r cwmni i greu swyddi ychwanegol.

Yn 2019 derbyniodd Cenergist ei bedwerydd buddsoddiad FW Capital - £750,000 o gyfalaf twf - i lansio ffrydiau refeniw newydd, cynyddu graddfa, cyflawni contractau newydd, creu wyth rôl newydd ac agor canolfan alwadau yn Billingham.

Mae Cenergist yn gweithredu o swyddfeydd yn Billingham, Teesside, Washington, Tyne and Wear, a Llundain. Mae ganddo dri is-gwmni wedi'u lleoli yn Sbaen, Yr Iseldiroedd ac India sy'n canolbwyntio ar gyflenwi i farchnadoedd lleol, 31 aelod o staff yn y DU a thair adran - Seilwaith Ynni, Ymgynghori a Gwasanaethau Dŵr.

Daw'r buddsoddiad â chyfanswm y cyllid i £1.85 miliwn.

"Mae ein partneriaeth wych gyda FW Capital wedi sefyll prawf amser. O'r buddsoddiad cyntaf a wnaethant yn Cenergist yn 2015, i'r cyllid diweddaraf o £750,000, mae FW Capital wedi deall ein busnes yn wirioneddol ac wedi ein helpu i gyrraedd ein huchelgeisiau a chynhyrchu trosiant sylweddol."

Tees Valley
£750,000
NPIF - Cyllid Dyled FW Capital



WILTON ENGINEERING

Mae Wilton Engineering Services Ltd yn arbenigo mewn adeiladu strwythurau mawr, cymhleth yn aml, ac mae'n llwyddo i arallgyfeirio o olew a nwy i'r farchnad adnewyddadwy.

Mae'r cwmni wedi elwa o £3.4 miliwn mewn cyllid bond trwy Gronfa Catalydd Dyffryn Tees ers 2014, gan eu helpu i ennill contractau gwerth dros £55 miliwn.

Yn 2014 dyfarnwyd contract gwerth £33 miliwn i Wilton gan Conoco Phillips. Yn dilyn hynny fe wnaethant ennill contract gwerth £17 miliwn yn 2017 i ddarparu 21 darn pontio ar gyfer Ørsted, a fydd yn cael eu gosod fel rhan o Fferm Wynt Ar y Môr Hornsea One.

Mae'r benthyciad diweddaraf o'r gronfa wedi caniatáu i'r cwmni gyflogi gweithwyr ychwanegol i gefnogi cwblhau contract gwerth £2.5m.

"Rydym yn hynod falch o sicrhau bond cyfalaf trwy FW Capital. O'n hymchwiliad cychwynnol hyd at ei gwblhau, roedd y tîm yn FW Capital wedi'u hymgysylltu'n llawn, ac fe wnaethant ymroddi eu harbenigedd i'n hanghenion. Roedd cyflymder yr ymateb yn wych a hoffwn ddiolch i'r tîm am fynd y tu hwnt i'w dyletswyddau i sicrhau canlyniad llwyddiannus iawn."

Stockton on Tees
£407,500
Gronfa Catalydd Dyffryn Tees

Tees Valley
Catalyst Fund



BELL BLUE

Benthycodd datblygwr eiddo Sir Durham, Bell Blue, swm chwe ffigur o Gronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain i gefnogi datblygiad bach o gartrefi teulu yn Bishop Auckland.

Dywedodd Matt Houghton, Cyfarwyddwr Bell Blue Ltd fod y benthyciad wedi helpu i droi eu dyluniadau yn realiti i bobl leol.

Gyda golygfeydd hyfryd ar draws cefn gwlad agored, mae'r pedwar cartref yn cael

eu hadeiladu i safon uchel gan grefftwr lleol gan ddefnyddio carreg o chwarelly cyfagos.

"Fe wnaethon ni fwynhau dylunio ac adeiladu'r pedwar cartref teuluol mawr eu hangen hyn. Diolch i gefnogaeth FW Capital roeddent yn gweithio i'w cwblhau gyda gosodiadau a ffitiadau o ansawdd uchel, yn barod i deuluoedd lleol symud i mewn."

Bishop Auckland.
Eheb ei ddatgelu
Gronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain

North East
Property Fund



Castell Barnard
£690,000
Gronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain

North East
Property Fund



ONE NORTH PROPERTY

Mae One North yn gwmni datblygu preswyl yng Ngogledd Swydd Efrog, sy'n arbenigo mewn cartrefi newydd eu hadeiladu a throsi ysguboriau mewn lleoliadau gwledig.

Sicrhaodd y busnes fenthyciad tymor byr o £690,000 gan Gronfa Eiddo Gogledd Ddwyrain FW Capital i ariannu'r gwaith o adeiladu tri chartref ym mhentref gwledig Whorlton, ger Castell Barnard, Sir Durham.

Mae'r cartrefi pedair ystafell wely ar ffurf ysgubor bellach wedi'u cwblhau ac maent yn cynnwys dros 2,000 troedfedd sgwâr gan gynnwys garejys segl a gerddi eang. Hwn oedd y prosiect cyntaf i Gronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain ei ariannu yn Teesdale ac amlygodd sut y gall y gronfa roi'r buddsoddiad i gwmnïau adeiladu llai i adeiladu tai newydd hanfodol mewn ardaloedd gwledig.

"Fel datblygwr, rydym wedi ymrwymo i adeiladu cartrefi o safon yn y lleoliadau gorau yn y Gogledd Ddwyrain. Rydym yn falch ein bod yn cyflogi contractwyr lleol o safon o drefi a phentrefi lleol ac rydym yn ddiolchgar i FW Capital a Chronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain am gefnogi'r prosiect hwn."



GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH CYMRU

Mae Banc Datblygu Cymru yma i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi ledled Cymru.

Mae gan y Grŵp berthynas gadarnhaol a chynhyrchiol â chynrychiolwyr ei unig gyfranddaliwr, Llywodraeth Cymru, ar bob lefel. O dan arweiniad y cadeirydd a'r prif weithredwr, mae'r Grŵp yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr etholedig ac uwch

swyddogion, gan sicrhau bod gweithgareddau'r Grŵp yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth ac yn eu cefnogi o ran busnes a'r economi, tai a thwristiaeth. Yn weithredol, mae cydweithwyr yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Aberystwyth yn Busnes Cymru, gan ddarparu cyllid i gefnogi dyheadau twf busnesau Cymru yng nghydestun y dirwedd cymorth busnes ehangach.



Ken Skates

Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

"Mae'r canlyniadau gorau erioed eleni yn dangos y rôl hanfodol sydd gan Banc Datblygu wrth gefnogi busnesau ledled y wlad ac rwy'n falch iawn o weld cynnydd o bron i 30% mewn buddsoddiadau.

"Mae'r ffigurau hyn yn dyst gwirioneddol i'r gwerth y mae'r Banc Datblygu yn ei ychwanegu i'n heconomi a'r dirwedd fusnes fywiog yr ydym yn ei maethu yma yng Nghymru.

"Mae ein ffocws ar ddatblygu pecyn cynhwysfawr ac amrywiol o gymorth busnes trwy fecanweithiau fel y Banc Datblygu a Busnes Cymru yn gwbl hanfodol i wella ein cydnerthedd economaidd.

"Ac wrth i ni gynllunio ein hadferiad o effaith coronafirws a gweithio i adeiladu'n ôl yn well, mae gwaith y Banc Datblygu i ddarparu cefnogaeth gyflym, hyblyg ac ymatebol sy'n ofynnol gan fusnes Cymru yn bwysicach nag erioed wrth yrru'r twf cynhwysol yr ydym ei eisiau a'i angen."



Julie James

Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

"Mae Banc Datblygu Cymru yn parhau i'n helpu i ddatblygu a chyflawni ein cynlluniau arloesol i gefnogi'r sector tai. Mae'r rhain yn amrywio o Cymorth i Brynu-Cymru gan roi mynediad i bobl at gartrefi newydd eu hadeiladu a chefnogi swyddi yn y sector, i'r rhai sydd wedi'u targedu at gwmnïau adeiladu tai Cymreig bach a chanolig.

"Mae galw mawr am y cronfeydd Datblygu Eiddo a Safleoedd Segur ac maen nhw'n helpu busnesau bach a chanolig i ddatgloi safleoedd a chael gafael ar gyllid fforddiadwy i adeiladu mwy o gartrefi ar draws y wlad. Mae Hunanadeiladu Cymru yn galluogi mwy o bobl i oresgyn rhwystrau i adeiladu eu cartrefi eu hunain fel opsiwn fforddiadwy ac fe wnaeth y National Custom and Self Build Association (NaCSBA) ddatgan hyn am y cynllun: - "dyma'r cynllun mwyaf cynhwysfawr yn unrhyw un o'r pedwar rhanbarth yn y DU".



Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Threfnydd

"Mewn cyfnod o argyfwng cenedlaethol, mae cael mynediad at y cymorth ariannol a'r gefnogaeth gywir gan fuddsoddw profiadol wedi bod yn hanfodol ar gyfer busnes ledled Cymru.

"Mae Banc Datblygu Cymru wedi chwarae rhan hanfodol wrth ein helpu i ddarparu'r pecyn cymorth mwyaf hael i fusnesau unrhyw le yn y DU, gan ddarparu cymorth ariannol mawr ei angen i filoedd o BBaCh ledled Cymru.

"Wrth i ni ddechrau cynllunio ymlaen llaw bydd Banc Datblygu Cymru yn parhau i chwarae rôl offerynnol yn ein rhaglen ail ddechrau ac adfer."



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD A172 GAN Y CYFARWYDDWYR

Mae Deddf Cwmnïau A172 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwr cwmni weithredu yn y ffordd y mae ef neu hi'n ystyried, yn ddiwyll, a fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd ei aelodau yn ei gyfarwydd. Wrth wneud hynny, mae adran 172 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwr ystyried, ymhlith materion eraill, y canlynol:

- canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniadau yn y tymor hir;
- buddiannau gweithwyr y cwmni;
- angen meithrin perthnasoedd busnes y cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill;
- effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd;
- dymunoldeb i'r cwmni gynnal enw da am safonau uchel o ymddygiad busnes; a
- angen gweithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau a172, mae'r Bwrdd yn ystyried y ffactorau a nodir uchod. Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi sylw i ffactorau eraill y mae'n eu hystyried yn berthnasol i'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Trwy ystyried pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd y Grŵp ynghyd â'i flaenoriaethau strategol a chael proses ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd, fodd bynnag, yn anelu at sicrhau bod ei benderfyniadau'n gyson.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo awdurdod ar gyfer rhedeg y busnes o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a, thrwyddo ef, i'r Uwch Reolwyr i osod, cymeradwyo a goruchwylio gweithrediad strategaeth y Grŵp a pholisïau cysylltiedig. Y Bwrdd, gan weithredu ar ei fenter ei hun a thrwy ei bwyllgorau, sy'n adolygu materion sy'n ymwneud â pherfformiad ariannol a gweithredol; strategaeth fusnes; prif risgiau; materion yn ymwneud â rhanddeiliaid; cydymffurfiaeth; a materion cyfreithiol a rheoliadol, yn ystod y flwyddyn ariannol. Cefnogir hyn trwy ystyried adroddiadau a chyflwyniadau a ddarperir yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac adolygu agweddau ar strategaeth y Grŵp yn rheolaidd.

Mae'r Bwrdd wedi gwneud sawl penderfyniad strategol allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 lle rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i rhanddeiliaid allweddol y Grŵp, gan gynnwys:

Sefydlu cronfa ymateb i Covid-19.

Yn ystod mis Mawrth 2020, gweithiodd y Grŵp gyda'i gyfranddaliwr i sefydlu Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 £19m fel rhan o Gronfa Cydnerthedd Economaidd £500m Llywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol i fusnesau Cymru yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod clo mewn ymateb i Covid-19.

Cwblhawyd codi arian cyn diwedd y flwyddyn a lansiwyd y gronfa yn ystod Ebrill 2020.

Yn ystod mis Mawrth, bu'r Bwrdd yn ystyried y galw posibl a gweithredoedd cyllidwyr eraill, p'un a allai'r cronfeydd presennol gwmpasu'r angen hwn neu a oedd gofyn am gronfa newydd a hefyd sut y byddai angen i'r prosesau gweithredol presennol newid yn gyflym i fodel lle'r oedd cydweithwyr a llawer o gwsmeriaid yn gweithio gartref ac yn ail, gan ragweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am gyllid.

Gweithredu rhaglen trawsnewid digidol y Grŵp.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo, trwy'r defnydd cynyddol o atebion technoleg, i wella gwasanaeth i gwsmeriaid a chynyddu hygyrchedd at BDC ar gyfer cwsmeriaid presennol a newydd. Yn ei dro, bydd newidiadau gweithredol yn dileu dyblygiad ac yn cynyddu effeithlonrwydd.

Mae trawsnewid digidol yn rhaglen dreigl sylweddol a fydd yn gwella profiad cyffredinol ein cwsmeriaid trwy ehangu'r ystod o opsiynau ymgysylltu wrth hwyluso mwy o weithio hyblyg i'n cydweithwyr. Mae trawsnewid digidol yn ganolog i gyflawni ymrwymiad y Grŵp i gyflawni ei weledigaeth o'r "effeithlonrwydd gweithredol gorau yn y dosbarth gydag wyneb dynol".

Ystyriodd y Bwrdd ofynion y rhaglen, yr amserlenni ar gyfer gweithredu, cyllidebu, heriau caffael a gwrthdaro buddiannau â darpar gyflenwyr.

Ymchwilio i gronfeydd newydd sy'n buddsoddi mewn prosiectau datgarboneiddio.

Ar ei ddiwrnod strategaeth, ystyriodd y Bwrdd y bylchau posibl newydd yn y farchnad cyllid. Nodwyd bwlch newydd yn y farchnad yn ymwneud â chyllid ar gyfer prosiectau datgarboneiddio ledled Cymru. Mae hwn yn faes polisi pwysig i Lywodraeth Cymru o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a tharged Cymru i leihau allyriadau carbon 95% erbyn 2050. Cytunodd y Bwrdd i ddyrannu adnoddau i ymchwilio gyda'i gyfranddaliwr y potensial i sefydlu cronfeydd masnachol yn y maes hwn.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae gan y Grŵp nifer o grwpiau rhanddeiliaid allweddol y mae'n ymgysylltu â nhw yn weithredol. Mae gwrandio ar y grwpiau rhanddeiliaid hyn, eu deall ac ymgysylltu â nhw yn rôl bwysig i'r Bwrdd wrth osod strategaeth a gwneud penderfyniadau. Mae'r Grŵp yn cydnabod ei rwymedigaethau a'i ofynion i fod yn fusnes gwasanaethau ariannol sydd wedi'i reoli'n dda, gan gydymffurfio â rheoliadau a sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid.

Ein cwsmeriaid

Fel is-gwmni i Lywodraeth Cymru, mae'n bwysig ein bod, trwy ein rhyngweithio â chwsmeriaid, yn arwain ac yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru a'r byd ehangach.

Mae ein hymagwedd tuag at hyn wedi'i fframio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn darparu cyllid cynaliadwy ac effeithiol, sy'n ategu'r sector breifat gyda llywodraethu a goruchwyliaeth gref.

Gan adeiladu ar ein hanes o fuddsoddi cyfrifol, eleni fe wnaethom ehangu mesur ein heffaith ar draws pedair thema effaith:

- Ffyniant a chyfle byd-eang;
- Arloesi a digideiddio;
- Datgarboneiddio a'r amgylchedd; a
- Cymunedau, iechyd a chynhwysiant cymdeithasol.

O fewn y themâu hyn mae metrigau wedi'u mapio i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y data a gesglir eleni yn darparu llinellau sylfaen ac yn ein galluogi i olrhain tueddiadau tymor hir. Bydd yn ein galluogi i ddangos effaith ein gweithgaredd yn ehangach nag o'r blaen, gan helpu i dynnu sylw at sut y gall ein cyllid fod yn gatalydd i gwsmeriaid gyflawni eu dyheadau twf wrth greu effeithiau cadarnhaol amrywiol yng Nghymru.

Ein rhanddeiliaid

Mae gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn un o'r gwerthoedd brand craidd.

Enghraifft o weithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau newid gwirioneddol, parhaol yw gwaith Dirnad Economi Cymru ar ddeall economi Cymru. Mae hyn wedi cynnwys adroddiadau chwarterol sy'n gweithredu fel monitor iechyd ar gyfer economi Cymru ac adroddiadau pwrpasol sy'n edrych ar faterion economaidd, busnes a chyllid penodol i Gymru.

Noddodd y Banc Datblygu'r Wobr Fusnes yn Womenspire 2019, gan ddangos ein cefnogaeth i fenywod sy'n fentergarwyr. Rydym hefyd wedi parhau â'n cyfraniad i'r Panel Cynghori Cefnogi Menywod Mentegarol, trwy lywyddu pob cyfarfod panel yn ogystal â thrwy nodi a gweithredu gweithredoedd o'r Canllaw Arfer Da.

Ein hamgylchedd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y risg ariannol o newid yn yr hinsawdd sy'n deillio o'r risgiau corfforol, er enghraifft, digwyddiadau tywydd eithafol a'r risgiau trosiannol sy'n gysylltiedig â'r addasiad tuag at economi carbon isel, fel ymddangosiad technoleg aflonyddgar a'r newid yn y dewisiadau cymdeithasol. At hynny, rhaid i'r Grŵp ystyried ei effaith amgylcheddol ei hun.

Mae strategaeth y Grŵp yn y maes hanfodol hwn yn datblygu ar hyd nifer o lwybrau. Mae gweithdrefnau buddsoddi a phortffolio yn esblygu i gymryd ystyriaeth addas o risg newid yn yr hinsawdd ac rydym yn ystyried sut y gallai cronfeydd newydd gefnogi trawsnewidiad busnesau i garbon isel yn well. Rydym yn ehangu'r ystod o ddata effaith a gasglwn ac yn ceisio meintioli ôl troed carbon y Grŵp a gweithredu strategaethau i'w leihau lle bo hynny'n ymarferol.

Eleni gwnaethom ddechrau'r broses o ailasesu ein defnydd o ofod swyddfa. Trwy leihau'r defnydd o bapur, newid ymddygiadau gwaith a gweithio gyda Collecteco, gwnaethom gyfrannu 97 eitem o ddodrefn swyddfa i'r YMCA yng Nghaerdydd. Fe wnaeth rhoddion ddargyfeirio 4,967kg o safleoedd tirlenwi ac roedd yn gyfanswm o £26,000 o arian mewn nwyddau a roddwyd i'r gymuned leol. Gostyngodd yr allyriadau CO2 trwy aildefnyddio eitemau hyn 23,946KG CO2e.

Wrth ailasesu ein defnydd o ofod swyddfa gwnaethom weithredu systemau i alluogi galluoedd gweithio o bell o ansawdd uwch. Mae cyflwyno meddalwedd fel Microsoft Teams a diweddarau prosesau ar gyfer gweithio o bell wedi lleihau anghenion teithio ein cydweithwyr ledled Cymru, wedi lleihau'r defnydd o bapur 252KG y mis ac wedi ein galluogii barhau i weithio yn ystod y pandemig byd-eang.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau ein defnydd o ynni ledled ein swyddfeydd. Rhestrir ein swyddfa yng Nghaerdydd fel BREEAM 'da iawn' am ei effeithlonrwydd ynni a gwastraff, ac mae gan ein pencadlys yn Wrecsam sgôr C am berfformiad ynni. Rydym hefyd yn defnyddio goleuadau LG3 a LG7 i oleuo ein swyddfa yn effeithlon.

Ein cymunedau

Mae 'cyfrifol' yn werth craidd Banc Datblygu Cymru a bydd yn parhau i ddylanwadu ar ein model gweithredu wrth inni fynd i'r afael â nifer o heriau byd-eang a amlinellir gan nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym yn chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r heriau byd-eang sy'n wynebu Cymru trwy sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u hymgorffori ledled y Banc Datblygu.

Rydym yn aelodau tymor hir o Fusnes yn y Gymuned (BITC) Cymru ac yn rhagweithiol yn tynnu ar eu cefnogaeth i wella ein cymwysterau fel busnes cyfrifol.

Mae'r Grŵp yn parhau i greu effaith ar draws ei chwe philer allweddol o fusnes cyfrifol: gan gyflawni effaith nid yn unig i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ond hefyd i gyflenwyr a chydweithwyr, yn ogystal â chefnogi'r amgylchedd a'n cymuned.

Mae ein cyllid yn cefnogi datblygiad economaidd y rhanbarthau rydym yn gweithredu ynddynt yn uniongyrchol, gan greu a diogelu swyddi ac ysgogi cadwyni cyflenwi lleol.

Rydym wedi codi dros £39,000 ar gyfer ein helusen y flwyddyn, Alzheimer's Research UK. Cyflawnwyd hyn trwy amrywiaeth o fentrau codi arian, gan gynnwys:

- Dawns elusennol Caerdydd
- Dawns elusennol Newcastle
- Cwis Caerdydd
- Seiclon24
- Her rhwyfo Ergo 24 awr

Mae gennym raglen allgymorth gymunedol hirsefydlog. Yn ystod y flwyddyn, hwylusodd tîm o swyddfa Caerdydd Weithdy Menter gyda disgyblion yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn Nhrelái, Caerdydd. Helpodd y gweithdy i wella ymwybyddiaeth, dyheadau ac agwedd disgyblion tuag at fyd gwaith.

Am y bumed flwyddyn yn olynol, rhoddodd cydweithwyr yn y Banc Datblygu anrhegion Nadolig a hamperi bwyd i dros 110 o blant ac oedolion ifanc drwy'r elusennau NSPCC a Barnardo's.

Ein cyflenwyr

Mae dewis a rheoli cyflenwyr yn gyfrifol yn caniatáu inni adeiladu perthnasoedd cryf, buddiol. Yng Nghymru rydym wedi llwyddo i ddefnyddio porth caffael Llywodraeth Cymru Gwerthwchi Gymru trwy gydol y flwyddyn i ddod o hyd i gyflenwyr. Rydym hefyd wedi defnyddio contractau fframwaith y llywodraeth i gefnogi ein twf ein hunain a'n rhaglen ddigideiddio barhaus.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gomisiynu Canolfan Cydweithredol Cymru, o dan ei gwasanaeth ymgynghori Cyswllt Busnes Cymdeithasol, i ymgymryd ag adolygiad o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi busnes cymdeithasol i'r Banc Datblygu.

Ein cyfranddaliwr

Mae gan y Grŵp berthynas gadarnhaol a chynhyrchiol â chynrychiolwyr ei unig gyfranddaliwr, Llywodraeth Cymru, ar bob lefel. Dan arweiniad y cadeirydd a'r prif weithredwr, mae'r Grŵp yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr etholedig ac uwch swyddogion, gan sicrhau bod gweithgareddau'r Grŵp yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth ac yn eu cefnogi o ran busnes a'r economi, tai a thwristiaeth. Yn weithredol, mae cydweithwyr yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Busnes Cymru, gan ddarparu cyllid i gefnogi dyheadau twf busnesau Cymru yng nghyd-destun y dirwedd cymorth busnes ehangach.

Ein cydweithwyr

Ein pobl yw ein cryfder mwyaf ac rydym yn gweithio'n galed i ddarparu ein cronfeydd a'n gwasanaethau er budd Cymru. Fel cyflogwr rydym yn cynnig strategaeth hyfforddi a datblygu rhagweithiol ochr yn ochr â ffocws llesiant cadarn. Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru yn annog ac yn cefnogi gweithwyr i ddatblygu eu gyrfa gyda 15% o bobl yn cyflawni dyrchafiad yn 2018/19. Yn 2019/20 gweithredwyd llwybr datblygu gyrfa strwythuredig ar gyfer cydweithwyr o fewn timau buddsoddi a fydd yn sbardun allweddol wrth ddenu a chadw'r bobl iawni sicrhau twf y sefydliad yn y dyfodol.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygu ein cydweithwyr wedi gweld cynnydd sylweddol mewn hyfforddiant allanol a mewnlol eleni gan gynnwys hyfforddiant ar draws y cwmni fel sesiynau Urddas a Pharch yn y Gwaith, Timau Microsoft a hyfforddiant Power BI.

Ar y cyfan, mae diwrnodau hyfforddi bron wedi dyblu o 671 yn 2018/2019 i 1,170 yn 2019/20. Gan ystyried ein nifer uwch o bobl eleni, mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 5 diwrnod o hyfforddiant i bob cydweithiwr (3.5 yn 2018/2019).

Mae Banc Datblygu Cymru yn ymrwymedig i sicrhau ymagwedd gynlluniedig i ddarparu amgylchedd gwaith iach, hapus. Mae hyn yn cefnogi cydweithwyr wrth gynnal a gwella eu hiechyd personol a lles yn y gwaith ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth ariannol, iechyd meddyliol a chorfforol. Mae'r Grŵp yn gweithio gyda chydweithwyr, gan gynnwys rhai sydd ag anableddau, i addasu arferion gwaith er mwyn eu helpu i weithio'n effeithiol o fewn y busnes.

Ein cydweithwyr (parhad)

Cynhaliwyd y mentrau lles a ganlyn yn ystod y flwyddyn:

- Cyflwyno calendr lles
- Wedi cynnig gwiriadau pwysedd gwaed am ddim: defnyddiodd 82 o gydweithwyr y gwasanaeth hwn
- Darparwyd 104 o bigiadau fflw, gan arwain at ostyngiad o 74% yn y diwrnodau a gollwyd oherwydd fflw o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Darparwyd 130 o dylino'r cefn yn ystod "wythnos ymwybyddiaeth gofal cefn"
- Treial o ioga yn y swyddfa
- Cyflwyno polisi lles meddwl
- Hyfforddwyd 10 o wirfoddolwyr i fod yn swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl
- Darparu ffrwythau am ddim i holl swyddfeydd
- Hyfforddiant urddas a pharch yn y gwaith i'r holl gydweithwyr
- Seminarau o Carefirst a BUPA i godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau
- Gweithdy cydnerthedd ar gyfer uwch reolwyr

Y llynedd fe wnaethon ni ymuno â rhaglen Cyflogwr Chwarae Teg fel rhan o'n hymgyrch i fod yn gyflogwr o ddewis, a gwnaethom ennill gwobr lefel efydd. Yr adborth oedd bod angen i ni weithio ar gyfathrebu mewnol, gwobrwyo a chydabod a hyfforddi a datblygu. Rydym wedi gweithio'n galed i wella ym mhob un o'r meysydd hyn ac rydym yn falch iawn bod ein hymdrechion wedi'u cydnabod eleni trwy ddyfarniad lefel arian.

Rydym wedi parhau â'n cyfraniad i'r Panel Cynghori Cefnogi Menywod Entrepreneuraid a'r is-grŵp Cyllid a Gwasanaethau Proffesiynol.

BUDDSODDI EFFAITH

Mae'r Rhwydwaith Buddsoddi Effaith Byd-eang yn diffinio buddsoddi effaith fel:


"Buddsoddiadau a wnaed gyda'r bwriad o gynhyrchu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol gadarnhaol, fesuradwy ochr yn ochr ag enillion ariannol."

Mae Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi er mwyn cael effaith. Fel darparwr tymor hir benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i'r gymuned fusnes ficro i ganolig, credwn y gall busnesau bach a mentergarwyr sydd wedi'u gwreiddio yn y gymuned fod yn rhan o'r ateb i faterion lleol a byd-eang. Mae ein cronfeydd wedi'u targedu at fusnesau nad ydyn nhw'n cael cefnogaeth lwyr gan ddarparwyr gwasanaethau ariannol masnachol neu brif ffrwd. Wrth i ni barhau i gyflawni cronfeydd Ewropeidd a chronfeydd cyhoeddus eraill, mae ein strategaethau codi arian a buddsoddi yn cynnwys ffocws ar gefnogi busnesau n greiddiol iddynt a fydd â rôl gadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru.


Yn hanesyddol, rydym wedi mesur effaith ein buddsoddiadau trwy gyfeintiau o fuddsoddiad uniongyrchol, ysgogi'r sector breifat a chreu swyddi. Yn 2019 fe wnaethom ddatblygu a gweithredu fframwaith effaith diwygiedig, gan ehangu ein mecanweithiau ar gyfer gwerthuso a mesur effaith, wedi'i alinio â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Galwadau i Weithredu yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Er mwyn galluogi dealltwriaeth a meincnodi cychwynnol, derbyniodd cwsmeriaid Banc Datblygu holiadur effaith yn gofyn am wybodaeth ar ystod eang o bynciau yn ymwneud â'n pedair thema effaith. Mae'r data hwn wedi gwella ein dealltwriaeth ac wedi ein helpu i ddatblygu mentrau yn y dyfodol i gynyddu ein heffaith.


Mae datblygu ein model i fesur a rheoli effaith yn brosiect tymor hir yr ydym wedi ymrwymo i'w ddatblygu a'i fireinio ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.



Gwnaed dros 20% o'n Recriwtiadau Allanol i Bencadlys Wrecsam sydd, ar 40 aelod o staff, ar y trywydd iawn i gwrdd â Strategaeth Traws Cymru i gyrraedd 50 erbyn 2021.



Cyflwyno mentrau AD a chyllid newydd gyda'r nod o wella profiad cydweithwyr, cael gwared ar faich gweinyddol wrth gynhyrchu adroddiadau a llenwi ffurflenni a lleihau faint o bapur a ddefnyddir ar draws y Grŵp.



Rhaglen bwrpasol gyda'r nod o gefnogi gweithwyr.

£401k 19/20

£113k 18/19

Cynyddodd cyfanswm y costau hyfforddi 75% i £401k (cost ychwanegol o £228k ar y flwyddyn flaenorol) gan adlewyrchu ffocws recriwtiaid newydd a phobl mewn rolau newydd, ynghyd â'n hymrwymiad parhaus i ddatblygu ein gweithlu.



Nifer mwyaf o recriwtiadau i gwrdd â thwf busnes **73 o recriwtiaid newydd a 28 o symudiadau mewnol.**



Cyflawnwyd hyfforddiant llesiant datblygu a rheoli tîm gyda ffocws penodol bob mis.

Darparwyd hyfforddiant olyniaeth ar gyfer uwch reolwyr.



Ffyniant a Chyfle Byd-eang



Cymunedau, Iechyd a Chynhwysiant Cymdeithasol



Datgarboneiddio a'r Amgylchedd



Arloesedd a Cynhwysiant Digidol

BUDDSODDI EFFAITH (PARHAD)



Ffyniant & Chyfle Byd-eang

Mae'r thema hon yn ein helpu i fesur sut mae ein cwsmeriaid a'n buddsoddiadau yn effeithio ar dwf economaidd, a dosbarthiad y twf hwn, ar gyfer Cymru fwy llewyrchus sydd â diwylliant bywiog.

LSN Diffusion

Cefnogaeth barhaus yn helpu busnes uwch-dechnoleg metel i dyfu eu hallforion.

Mae LSN Diffusion (LSN), busnes metelegol yn defnyddio technoleg flaengar i gynhyrchu powdrau atomedig aloi uchel a ddefnyddir mewn cymwysadau diwydiannol uwch-dechnoleg gan gynnwys archwilio modur, olew a nwy, adfer gwres, cynhyrchu gwydr nwyddau gwag, amddiffyn ac awyrodod.

Yn 2012, elwodd LSN o £350,000 mewn cyllid cychwynnol gan Fanc Datblygu Cymru, dilynwyd hyn gan fenthyciad o £1.25 miliwn yn 2019.

Maent bellach yn allforio mwy na 90% o'r cynhyrchiad i farchnadoedd yng Ngogledd America, y Dwyrain Pell - yn enwedig Japan a Korea - a ledled yr Undeb Ewropeaidd.

12%

O'r ymatebwyr yn allforio, gan gyfrannu £135,800,000 at allforion Cymru.

50%

Cyferwerth Llawn Amser (CLIA) yn y busnesau rydym yn eu cefnogi o fewn ystod cyflogau canolrifol i uchel.

58%

o'r buddsoddiad blynyddol yn ôl gwerth a 60.6% yn ôl cyfaint a aeth i Orllewin Cymru a'r Cymoedd.

79%

cyferwerth llawn amser o'r busnesau sy'n cymryd ecwiti o fewn ystod cyflog canolrifol i uchel o gymharu â 48% ar gyfer y rhai sy'n derbyn benthyciadau.

Ein hymrwymadau:

1. Byddwn yn annog mwy o gwsmeriaid i ystyried y cyfleoedd twf sydd ar gael i'w busnes trwy allforio trwy gynnig dosbarth meistr ar allforio.
2. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o fuddion buddsoddi mewn ecwiti trwy ddatblygu a gweithredu ymgyrch, gan dargedu busnesau sydd â photensial i dyfu a'u cynghorwyr.
3. Byddwn yn parhau â'n ffocws ar fuddsoddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (diffiniad ERDF).

BUDDSODDI EFFAITH (PARHAD)



Cymunedau, Iechyd & Chynhwysedd Cymdeithasol

Rydym am wella cynhwysiant ariannol a gwneud buddsoddiadau sy'n mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac felly nod metrigau a gipiwyd o dan y thema hon yw mesur ein heffaith o ran creu Cymru fwy cyfartal ac iachach o gymunedau cydlynol.

Modest Trends

Micro fenthyciad yn helpu mentergarwraig i agor siop ffasiwn chwaethus Fwslimaidd.

Mae'r cwmni manwerthu sy'n seiliedig yng Nghaerdydd, Modest Trends, yn arbenigo mewn mewnforio a gwerthu abayas a hijabs safon uchel o'r Dwyrain Canol. Sefydlwyd y cwmni gan Rifhat Qureshi, 42 oed, ac mae'n darparu ar gyfer merched Mwslimaidd sy'n chwilio am ddillad ffasiynol, chwaethus.

Mae eu hamrediad wedi'i dargedu at ferched Mwslimaidd ifanc 16-35 oed. Mae'r merched hyn yn fwy tebygol o fod mewn gwaith gydag incwm i'w wario o'u cymharu â'u mamau neu eu neiniau ac eisiau gwisgo dillad sy'n cynrychioli eu gwerthoedd ysbrydol a'u hunaniaeth ddiwyllianol, sy'n ffasiynol ar yr un pryd.

Benthycodd Rifhat £12,000 i helpu gyda chostau agor siop gorfforol, gan ganiatáu i'w chwsmeriaid roi cynnig ar amrywiaeth o steiliau cyn prynu. Cyn i'w siop agor yng Nghaerdydd, roedd y siopau corfforol agosaf i ferched Mwslimaidd Cymru ymweld â nhw yn Llundain a Birmingham.

Fe wnaeth ein buddsoddiad helpu dynes busnes i wireddu ei huchelgais, gan gynnig gwasanaeth newydd sydd a galw mawr amdano i ferched Mwslimaidd Cymru.

29%

o berchnogion / cyfarwyddwyr / cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym yn ferched.

3%

o berchnogion / cyfarwyddwyr / cyfranddalwyr yny busnesau a gefnogwyd gennym yn BAME.

1%

yn ystyried eu hunain ag anabledde tymor hir.

70

o fenthyciadau eiddo Banc Datblygu Cymru yn cefnogi adeiladu 70 o unedau tai fforddiadwy. (19/20)

Ein hymrwymadau:

1. Byddwn yn cefnogi mentergarwyr benywaidd trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel y Rhwydwaith Hybu Sefydlwyr Busnes Benywaidd Chwarae Teg.
2. Byddwn yn adolygu'r rhwystrau i fenter i bobl dan 25 oed, gan gynnwys graddedigion ac yn datblygu mentrau i gefnogi'r grŵp hwn.
3. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol o gymunedau BAME i greu cyfleoedd rhwydweithio a datblygu busnes.



BUDDSODDI EFFAITH (PARHAD)



Datgarboneiddio & Amgylchedd

Mae angen gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd, ac mae'r metrigau a gipiwyd o dan y thema hon yn llywio ein heffaith ar ddatgarboneiddio'r economi ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang.

Ynni Cymunedol yn Sir Benfro

Mae cymuned yn Sir Benfro wedi symud at ynni di-garbon yn dilyn benthyciad o'r Gronfa Ynni Lleol.

Derbyniodd Ynni Cymunedol yn Sir Benfro fenthyciad o £1.47 miliwn gan y Gronfa Ynni Lleol yn 2020 i helpu i gwblhau prosiect tyrbîn gwynt cymunedol ym Mharc Prouts, Dwyrain Williamston. Roedd y prosiect wedi sicrhau cyfradd bwydo trydan i mewn, ond roedd angen ei gwblhau o fewn ffrâm amser fer er mwyn ei sicrhau.

Dylai'r tyrbîn cymunedol 900 KWh sy'n bwydo i mewn i'r Grid Cenedlaethol gynhyrchu digon o bŵer i gyflenwi'r hyn sy'n cyfateb i 665 o aelwydydd, ac arbed tua 18,000 tonnell o CO2 rhag mynd i'r atmosffer yn ystod 20 mlynedd gyntaf ei weithrediad. Yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer cymunedau lleol, bydd Ynni Cymunedol yn Sir Benfro yn buddsoddi unrhyw wargedion sy'n deillio o gynhyrchu tyrbînau mewn gweithgareddau i gynhyrchu budd cymdeithasol yn yr ardal gyfagos

Ers ysgrifennu'r adroddiad blynyddol, sefydlwyd cymdeithas budd cymunedol - Ynni Adnewyddadwy / Renewable Power Sir Benfro - i gyflawni cynnig cyfranddaliadau cymunedol gydag enillion o 4% ym mis Medi 2020. Bydd hyn yn galluogi'r cyhoedd i brynu cyfranddaliadau yn y tyrbîn ac ymuno â'r gymdeithas fel aelodau.

70%

o'n cwsmeriaid a adroddodd data ynni yn gallu dewis eu cyflenwr ynni.

44%

o'r ynni hwnnw'n dod o ffynonellau adnewyddadwy.

7%

o'r busnesau hynny a oedd yn cael eu holl ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

33%

33% yw cyfartaledd y DU wrth gyflenwi ynni adnewyddadwy.

Ein hymrwymiaidau:

1. Er mwyn deall sut mae BBaCh yn gwerthfawrogi a gwneud penderfyniadau buddsoddi sy'n ymwneud â datgarboneiddio, bydd Dirnad Economi Cymru yn comisiynu ymchwil sylfaenol, ymgynghori â , a chynnal arolygon perchnogion / sylfaenywyr. Bydd yr ymchwil yn archwilio meysydd fel y graddau y mae newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi, rhwystrau i hyn a cherbydau cyllid gwyrdd.
2. Byddwn yn defnyddio grŵp adolygu mewnol i ddatblygu cynhyrchion neu wasanaethau sy'n cyd-fynd â'r agenda datgarboneiddio.
3. Byddwn yn nodi meysydd y gallwn wella ynddynt yn ein gweithrediadau trwy adolygu ein arferion mewn perthynas â datgarboneiddio.

BUDDSODDI EFFAITH (PARHAD)



Arloesedd & Chynhwysedd Digidol

Bydd y metrigau o dan y thema hon yn ein helpu i fesur sut mae ein busnesau yn arloesi, yn addasu ac yn tyfu ar gyfer Cymru fwy cydnerth.

Pinpoint Scientific

Mae busnes monitro microbiolegol yn creu technoleg patent newydd.

Mae Pinpoint Scientific o Ben-y-bont ar Ogwr yn darparu cynhyrchion monitro amgylcheddol microbiolegol. Mae'r technolegau hyn yn hanfodol ar gyfer monitro ystafelloedd glân yn barhaus er mwyn sicrhau bod yna lai o halogiad. Mae eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn cynnwys monitro aer yn gyson, ISO-14698 safonedig, monitro cydymffurfiol a chynhyrchion ar gyfer rheoli halogiad.

Derbyniodd Pinpoint Scientific bron i £250,000 mewn buddsoddiad ecwiti o Gronfa Sbarduno Technoleg Cymru. Mae Pinpoint Scientific wedi creu cynhyrchion newydd i'r farchnad ac yn newydd i gwmnïau ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi dosbarthwr newydd ar gyfer y Rhanbarthau Nordig wrth iddo barhau i allforio. Mae Pinpoint Scientific, gyda chymorth ein buddsoddiad, yn creu effaith ar draws ein themâu Arloesi a Chynhwysiant Digidol a Ffyniant a Chyfle Byd-eang.

Roedd ein buddsoddiad yn darparu llif arian ar gyfer datblygiad parhaus a chwrdd â gorchmynion yn ystod y cyfnod trosglwyddo o'r Undeb Ewropeaidd.

41%


o ymatebwyr yn weithredol digideiddio eu busnes.

31%

yn arloesi'n weithredol.

4%

o fusnesau â phatentau cofrestredig.



Ein hymrwymiaidau:

1. Byddwn yn annog ein cwsmeriaid i wella eu heffeithlonrwydd a'u cyfleoedd ar gyfer arloesi trwy gynnal dosbarth meistr, "Buddsoddi yn eich model busnes"

Datgelu data

Rydym yn dibynnu ar hunan-adrodd ar gyfer nifer o fesurau, mae hyn yn golygu bod rhai o'n setiau data yn anghyflawn neu efallai bod gwallau ynddynt. Yn y cyfnod gan ddechrau 7 Gorffennaf 2019 i 31 Mawrth 2020, dychwelodd 728 o fusnesau ffurflenni buddsoddi. Tynnwyd nifer o'r rhain o'r sampl oherwydd data o ansawdd gwael.

Y canlyniad terfynol yw sampl o 705 o fusnesau a adroddodd ddata inni. Mae metrigau'n deillio o ystod o ffynonellau a gydnabyddir gan y farchnad buddsoddi effaith. I gael mwy o wybodaeth am ein metrigau perfformiad ac effaith ewch i weld developmentbank.wales/cy/amdanom-ni/perfformiad-ac-effaith

DATGANIAD PSA

Ein blwyddyn ariannol: Adolygiad lefel uchel

Yn yr adroddiadau blynyddol y ddwy flynedd ddiwethaf fe wnaethom gyflwyno dadansoddiad newydd o berfformiad ariannol y Grŵp yn dilyn cais am gyflwyniad mwy tryloyw o wybodaeth ariannol gan Bwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



David Staziker
Prif Swyddog Ariannol

Er mwyn darparu eglurder ynghylch sefydliad sy'n gynyddol gymhleth, rydym wedi fformatio'r adroddiad trwy;

- ddisgrifio dau weithgaredd sylfaenol ac unigryw'r Grŵp a sut maent yn cynhyrchu refeniw ac yn achosi costau;
- crynhoi'r refeniw a'r costau ar lefel gyfun ac yna dangos sut mae'r rhain yn torri i lawr rhwng y ddau weithgaredd hyn;
- cymharu perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer pob gweithgaredd;
- a chymharu costau gweithredu'r Grŵp â'i refeniw.

Gweithgareddau'r Grŵp

Gellir symleiddio strwythur y Grŵp ar lefel uchel trwy wahanu ein gweithgareddau rhwng dau faes gwahanol, y busnes gwasanaethau a'r busnes cronfeydd.

Beth mae'r rhan hon o'r busnes yn ei wneud?

Gwasanaethau

Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau rheoli cronfeydd fel buddsoddi a chasglu ad-daliadau o'r busnes cronfeydd a darparu gwybodaeth reoli ar gyfer ein Cronfeydd ein hunain (colofn gyferbyn) a chronfeydd partion allanol. Mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau dal arian fel cyfleusterau, TG, cyllid, cyfathrebu ac AD. Yn olaf, mae'n cynnwys gweithgareddau cymorth Anglion Buddsoddi Cymru a Dirnad Economi Cymru.

Cronfeydd

Mae gan y Grŵp sawl cronfa, a ddefnyddir i ddarparu benthyciadau neu i brynu cyfranddaliadau mewn busnesau yng Nghymru a benthyciadau ecwiti a rennir i brynwyr cartrefi newydd yng Nghymru. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu rheoli gan y Busnes Gwasanaethau ar y cyfan.

Sut mae'n cynhyrchu incwm?

Gwasanaethau

Mae'r refeniw'n cynnwys ffioedd a dderbynnir am reoli'r gronfa a gwasanaethau dal arian.

Cronfeydd

Mae'r refeniw'n cynnwys ffioedd, llog a geir ar fenthyciadau, derbynebau pan werthir cyfranddaliadau ac enillion neu golledion ar fuddsoddiadau sy'n cael eu hailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn i'w gwerth cyfredol (teg).

Pa gostau a achosir ganddo?

Gwasanaethau

Mae'r costau'n cynnwys: staff, ystadau a gwasanaethau prynu i mewn (fel TG).

Cronfeydd

Mae'r costau'n cynnwys ffioedd a delir am wasanaethau rheoli cronfa, darpariaethau ar gyfer colledion ar fuddsoddiadau a chostau gweithredu cronfa fel ffioedd archwilio.

Bydd adolygiad blynyddol yn dangos a yw'r rhan hon o'r grŵp yn cwmpasu ei gostau gweithredol.

Gwasanaethau

Bydd adolygiad blynyddol yn dangos a yw'r rhan hon o'r grŵp yn cwmpasu ei gostau gweithredol.

Cronfeydd

Mae cyfnod pob un o'n cronfeydd yn amrywiol a gall fod yn fwy na deng mlynedd. Mae proffidioldeb a pherfformiad cronfa yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n dibynnu ar ei chyfnod aeddfedrwydd. Mae canlyniadau'r gronfa'n cynnwys anwadalrwydd a achosir gan symudiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn asedau a ddelir ar werth teg sy'n amcangyfrifon a heb eu gwireddu. Nid yw adolygiad blynyddol o sefyllfa gyfun ein holl gronfeydd yn ffordd effeithiol o asesu perfformiad cronfa unigol.

Dadansoddiad perfformiad Grŵp Cydrannol

Tabl A: Dadansoddiad lefel uchel o BA20 a Datganiad Incwm Cyfunol BA19

	BA20			BA19		
	Gwasanaethau	Cronfeydd	Grŵp	Gwasanaethau	Cronfeydd	Grŵp
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Refeniw	30.9	45.7	49.1*	25.9	37.1	40.4*
Costau Gweithredu	-26.7	-22.5	-21.7*	-23.0	-18.1	-18.5*
Darpariaethau a wnaed	0	-10.8	-10.8	0	-2.3	-2.3
Newidiadau mewn gwerth teg	0	-32.8	-32.8	0	-29.7	-29.7
Gwarged / (diffyg)	4.2	-20.4	-16.2	2.9	-13.0	-10.1

*Mae'r ffigurau Grŵp hyn yn llai na chyfanswm y ffigurau busnes Gwasanaethau a Chronfeydd oherwydd dilëwyd trafodion rhwng y ddau. Mae cysoniad llawn sy'n dangos sut mae'r trafodion rhwng y ddau wedi'u dileu wrth gydgrynhoi a rhwng y ffigurau yn Nhabl A uchod ac yn Nhablau B a C isod a'r datganiad incwm cyfunol wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'r ffigur diffyg Grŵp o £16.2m (diffyg BA19 £10.1m) ar gyfer BA20 yn cynnwys y gwaged o £4.2m (BA18 £2.9m) o'r busnes gwasanaethau a diffyg o £20.4m (diffyg BA19 £13.0m) o'r busnes cronfeydd.

Esbonnir y gwagedion a'r diffygion ar gyfer y gwasanaethau a'r cronfeydd arian yn fanylach yn nhablau (B) ac (C) yn y drefn honno.

Yn y datganiad incwm cyfunol, dadansoddir gwaged y Grŵp rhwng diffyg o £16.3m (diffyg BA19 o £10.5m) y gellir ei briodoli i gyfranddalwyr ecwiti, Gweinidogion Cymru, a gwaged o £0.1m (BA19 £0.4m) y gellir ei briodoli i Log Di-reoli. Mae hyn yn cynrychioli cyfran gwaged busnes y gronfa sy'n ddyledus i gronfa Bensiwn Clwyd o ganlyniad i'w buddsoddiad ecwiti eleni i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Gweler Tabl C a'r nodyn cysylltiedig am fanylion.

Perfformiad ein busnesau gwasanaeth

Ein busnesau gwasanaethau yw lle mae'r costau gweithredu yn digwydd.

Tabl B: Dadansoddiad Datganiad Incwm Gwasanaethau BA20 a BA19

	BA20	BA19	Sylwebaeth
	£m	£m	
Incwm rheoli'r gronfa	30.9	25.9	Mae cynnydd yn bennaf o ganlyniad i naill ai Cronfeydd newydd sy'n cael eu rheoli neu effaith blwyddyn lawn cronfeydd newydd a ddaeth dan reolaeth yn ystod Blwyddyn Ariannol 19.
Cyfanswm y refeniw	30.9	25.9	
Costau staff	-13.0	-10.5	Mae cynnydd yn bennaf o ganlyniad i lefelau uwch o'r gweithlu yn darparu lefel uwch o arian. Cyfartaledd y staff a gyflogwyd yn ystod Blwyddyn Ariannol 20 a Blwyddyn Ariannol 19 oedd 218 a 183 yn y drefn honno.
Costau eraill	-13.7	-12.5	Cynnydd yn unol â seilwaith ychwanegol a chostau gweithredu sy'n codi o'r twf mewn cronfeydd dan reolaeth.
Cyfanswm y costau	-26.7	-23.0	
Gwaged incwm dros gostau	4.2	2.9	

Gwaged a chynaliadwyedd

Dylid cydnabod nad yw'r gwaged a nodwyd uchod ar gael i'w ddsbarthu. Mae eisoes wedi'i glustnodi fel rhan o gasgliad Grŵp BDC o gronfeydd wrth gefn o arian parod gweithredol a gofyniad cyfraniad o £52m rhwng 2020 a 2024 i Gronfa Busnes Cymru a Chronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru ochr yn ochr â'r enillion blaenorol o'r cronfeydd hyn a chronfeydd eraill yn y modd gwireddu hynny, fel cronfa JEREMIE Cymru a chronfa BBaCh Cymru. Mae'r enillion etifeddiaeth hyn o Gronfa JEREMIE Cymru a Chronfa BBaCh Cymru yn cyfateb i c.£19m ar 31 Mawrth 2019 (£14m ar 31 Mawrth 2019).

Fel y dangosir yn nhabl B, cynyddodd y gwaged a gynhyrchwyd gan y busnesau gwasanaeth £1.3m (45%) o BA19. Rhagwelwyd gwaged o BA20 o £3.0m yng Nghynllun Busnes Blynyddol y Banc Datblygu a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru i alluogi'r grŵp i barhau i gronni cronfeydd wrth gefn arian parod gweithredol. Bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn caniatáu i'r grŵp weithredu heb Grant Cymorth gan Lywodraeth Cymru a pharhau i hunangyllido, un o amcanion allweddol Banc Datblygu Cymru a Gweinidogion Cymru. Gallwn ragweld incwm a gwariant busnes gwasanaethau gyda sicrwydd rhesymol am y 3 blynedd nesaf sy'n dangos bod y busnes gwasanaethau yn parhau i fod mewn sefyllfa warged gronnus ac felly yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr gallwn wneud ein datganiad hyfywedd tymor hir dros y 3 blynedd nesaf ni waeth a yw ein cronfeydd busnes mewn gwaged neu ddiffyg.

Mae'r gwaged o £4.2m yr adroddwyd arno a nodwyd yn Nhabl B uchod £1.2m yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd oherwydd proffilio gwariant. Mae'r trawsnewidiad i Fanc Datblygu Cymru yn rhaglen tair blynedd. Cafwyd y costau trawsnewid cysylltiedig hyn yn hwyrach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol gan gynnwys recriwtio a buddsoddi mewn Seilwaith TGCh.

Mae'r holl warged a nodwyd yn Nhabl B ar y dudalen flaenorol oherwydd cyfranddaliwr ecwiti'r Grŵp, Gweinidogion Cymru.

Perfformiad ein busnes cronfeydd

Mae Grŵp BDC yn derbyn arian gan fuddsoddwyr (Gweinidogion Cymru yn bennaf). Mae ein busnes cronfeydd yn buddsoddi'r cronfeydd hyn, yn casglu ad-daliadau, ac yna naill ai'n ad-dalu'r buddsoddwyr neu'n ail-fuddsoddi'r ad-daliadau mewn cronfeydd presennol neu newydd.

Mae'r perfformiad yn adlewyrchu canlyniadau cyfun 17 cronfa fuddsoddi y mae'r busnes gwasanaethau yn eu rheoli, y buddsoddiad o £50m i Gronfa Buddsoddi Gwyddor Bywyd Cymru (CBGBC) a chronfa benthyciadau ecwiti a rennir Cymorth i Brynu - Cymru ("CiBC").

Cyflwynir y dadansoddiad perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y busnesau cronfeydd yn nhabl C.



Tabl C: Cronfeydd Dadansoddi Incwm BA20 a BA19

	BA20	BA19	Sylwebaeth
	£m	£m	
Ffioedd a dderbyniwyd	4.2	3.5	Mae'r cynnydd yn unol â maint cynyddol y llyfr buddsoddi mewn dyled ac ecwiti.
Incwm llog a difidendau	8.4	6.9	Mae'r cynnydd yn unol â'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y llyfr dyledion.
Rhyddhau Grant ERDF	29.5	25.4	Mae cynnydd yn adlewyrchu lefel uwch o fuddsoddiad, 25.4 yn enwedig yn rhanbarthau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer Cronfa Busnes Cymru (gweler y nodyn isod).
Gwireddu ecwiti	0.7	0.6	Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu llai o allanfeydd o ansawdd gwell yn BA200.6 o'i gymharu â BA19 gyda'r 3 allanfa (BA19 7 allanfa) yn cynrychioli arian cyfunol ar enillion arian parod o 2.1 gwaith yn BA20 (BA19 1.2 gwaith).
Trysorlys Net	2.9	0.7	Mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r cyfartaledd uwch yn bennaf 0.7 balansau arian parod a ddelir dros BA20 ynghyd â chyfraddau llog gwell trysorlys wedi'u cyflawni.
CiBC Newidiadau gwerth teg:			
• Enillion a wireddwyd wrth waredu	3.2	1.4	Mae'r cynnydd yn adlewyrchu maint ac aeddfedrwydd cynyddol llyfr CiBC.
• Gwerth teg heb ei wireddu (Colledion) / enillion yn y flwyddyn	-27.7	26.8	Gweler y sylw isod.
• Gostyngiad / (cynnydd) yn y swm sy'n ddyledus i prif gyfranddaliwr	24.5	-28.2	Dyma swm yr uchod a wireddwyd ac nas gwiredwyd - 28.2 enillion / colledion sy'n cael eu tynnu o / (ychwanegu at) y swm sy'n ddyledus i brif gyfranddaliwr y Grŵp.
• Newid gwerth teg net CiBC wedi'i gofnodi yn y datganiad incwm	0	0	
Cyfanswm yr Incwm Net	45.7	37.1	
Darpariaethau a wnaed	-10.8	-2.3	Gweler y sylw isod.
Colledion gwerth teg cronfa heb eu cydgrynhoi	-5.4	-14.8	Mae'r golled hon yn cynrychioli'r symudiad yn y gwerth teg o'r buddsoddiad gwreiddiol o £50m yn y Gronfa Buddsoddi Gwyddor Bywyd. Gweler y sylw isod.
Colledion gwerth teg eraill	-27.4	-14.9	Gweler y sylw isod.
Ffioedd Rheoli Cronfa wedi'u talu	-20.7	-17.0	o Gynnydd yn adlewyrchu'r arian ychwanegol sy'n cael ei reoli.
Costau eraill	-1.8	-1.1	Cynnydd yn unol â'r twf mewn cronfeydd a reolir.
Cyfanswm y Costau	-66.1	-50.1	
Diffyg	-20.4	-13.0	
Diffyg y gellir ei briodoli i gyfranddaliwr ecwiti	-20.5	-13.4	Mae hyn yn cynrychioli cyfran diffyg y busnes cronfeydd oherwydd y cyfranddaliwr, Gweinidogion Cymru.
Gwarged y gellir ei briodoli i elw di-reolgar	0.1	0.4	Mae hyn yn cynrychioli cyfran diffyg y busnes cronfeydd 0.4 y gellir ei briodoli i gronfa Bensiwn Clwyd o ganlyniad i'w buddsoddiad ecwiti eleni yng Nghymru Cronfa Olyniaeth Rheoli (gweler y nodyn isod).

Mae Tabl C yn dangos bod busnes cronfeydd wedi cynhyrchu diffyg o £20.4m eleni o'i gymharu â diffyg o £13.0m yn y flwyddyn flaenorol. Y prif resymau dros y newid mewn perfformiad yw effaith Covid-19 gan

arwain at gynnydd mewn darpariaethau a cholledion gwerthoedd teg yn BA20 a osodwyd yn erbyn y rhyddhad grant ERDF uwch ac incwm llog / trysorlys.

Rhyddhau grant ERDF

Rhyddheir grant ERDF fel referniw i ddatganiad incwm y Grŵp dros gyfnod buddsoddi saith mlynedd Cronfa Busnes Cymru, a ddechreuodd fuddsoddi yn ystod mis Awst 2016, yn unol â lefel y buddsoddiadau a wnaed mewn blwyddyn.

Darpariaethau - effaith Covid-19

Mae'r rhif BA20 yn adlewyrchu effaith Covid-19 o fis Mawrth 2020 ar y cyfrifiadau ar gyfer namau ar fenthyciadau. O dan IFRS 9 mae darpariaethau colli benthyciad yn seiliedig ar ddisgwyliadau ar gyfer colledion yn y dyfodol, nid dim ond ar golledion a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn. Fel y datgelir yn Nodyn 3 i'r Datganiadau Ariannol, mae darpariaeth BA20 o £10.8m yn cynnwys addasiadau sylweddol ar gyfer effaith Covid-19. Mae'r addasiadau hyn gyfystyr â chynnydd mewn darpariaethau lwfans colled o £9.7m. Ac eithrio effaith Covid-19 mae'r ddarpariaeth golled yn llai na darpariaeth y flwyddyn flaenorol o £2.3m, er gwaethaf y twf o flwyddyn i flwyddyn yn y llyfr dyledion, o ganlyniad i berfformiad diodyn gwell tan y cyfnod clo Covid-19.

Colledion gwerth teg eraill / enillion - effaith IFRS 9

O dan IFRS 9 dangosir newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau ecwiti yn y datganiad incwm. Y prif reswm am yr arwystl hwn o £27.4m (gostyngiad o 27% mewn gwerth teg) eleni yw effaith Covid-19 ar brisiadau ecwiti yn ystod Mawrth 2020.

Roedd arwystl BA19 o £14.9m yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad unwaith ac am byth o £20m yng ngwerth buddsoddiad BDC yn Diurnal yn dilyn cyhoeddi canlyniadau treialon clinigol gwael yn gwrthbwysio enillion gwerth teg net fel arall ar draws y portffolio ecwiti.

Canlyniad pwysig sy'n codi o gynnwys gwerth teg buddsoddiadau ecwiti yn y datganiad incwm cyfunol ers gweithredu IFRS 9 o BA19 yw'r y bydd yn anochel y bydd gwarged neu ddiffyg y Grŵp yn llawer mwy cyfnewidiol flwyddyn ar ôl blwyddyn nag a welwyd yn hanesyddol yn dibynnu ar sut mae prisiadau'r asedau ecwiti hyn yn newid.

Cronfa Fuddsoddi Gwyddor Bywyd Cymru ("CBGBC")

O dan IFRS 9, mae'r buddsoddiad yn CBGBC bellach yn cael ei ddal yn y datganiadau ariannol am werth teg. O'r buddsoddiad o £50m yn y gronfa hon, roedd £20.4m wedi'i ad-dalu ar 31 Mawrth 2020 (BA19 £20.4m). Gwerth teg y buddsoddiad heb ei dalu ar 31 Mawrth 2019 £16.6m. Ar 31 Mawrth 2020, gostyngodd y gwerth teg hwn £5.4m i £11.2m yn bennaf o ganlyniad i effaith Covid-19 ar brisiadau ecwiti sylfaenol y gronfa.

Cymorth i Brynu - Cymru Cronfa fenthyciad Ecwiti a Rennir ar gyfer prynwyr tai newydd

O Dabl C, byddwch yn nodi bod symudiadau sylweddol yng ngwerth teg heb eu gwireddu yr asedau hyn sy'n sensitif iawn i newidiadau ym mynegai prisiau tai a'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn y cyfrifiad. Mae'r golled net o £24.5m heb ei gwireddu a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru yn BA20 yn hytrach nag enillion nas gwiredwyd o £28.2m a drosglwyddwyd yn BA19 yn ganlyniad i effaith Covid-19 ar ragdybiaethau mynegai prisiau tai yn y dyfodol yn y model prisio. Disgwyliwn i'r enillion (neu'r colledion) hyn aros yn gyfnewidiol wrth symud ymlaen oherwydd fe all newid bach naill ai yn y mynegai neu'r gyfradd ddisgowntio achosi newid sylweddol yn yr enillion neu'r golled gwerth teg. Gweler nodiadau 3 a 19 i'r datganiad ariannol am fanylion pellach am y prisiad hwn.

Elw Di-reoli

Y buddsoddiad o £10m i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru gan Gronfa Bensiwn Clwyd (y mae £3.1m wedi'i dynnu i lawr a'i fuddsoddi ac ad-dalwyd £0.7m gan y gronfa ar 31 Mawrth 2020 (Buddsoddiad BA19 £2.6m gyda £dim wedi'i ad-dalu)) yw'r buddsoddiad ecwiti allanol cyntaf i gael ei wneud i mewn i un o Gronfeydd y Grŵp. Mae'n cyfateb i £10m o gyllid gan Weinidogion Cymru a £5m o gyllid gan y Grŵp ei hun. O dan reolau cyfrifyddu, bernir bod y gronfa hon yn cael ei rheoli gan y Grŵp ac felly mae'n rhaid ei chynnwys yn natganiadau ariannol y Grŵp. Gan nad yw'r gronfa'n cael ei hariannu'n llawn gan y Grŵp, mae rheolau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu'r gyfran o'r gronfa y gellir ei phriodoli i'r buddsoddiwr allanol yn y Fantolen Gyfunol o dan y pennawd "Llog Di-Reoli" yn yr adran Ecwiti. Yn yr un modd, rydym hefyd yn datgelu'r elw y gellir ei briodoli i'r buddsoddiwr allanol ar wahân yn y Datganiad Incwm Cyfunol a'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr.

RHEOLI RISG A RHEOLI MEWNOL

Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru (y Grŵp) yn gweithredu model busnes cymharol syml, gan ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau syml yn gyffredinol. Mae'n gweithredu ym marchnad gwasanaethau ariannol manwerthu a masnachol y DU. Fel ariannwr bwch i gefnogi dyheadau twf busnesau micro i ganolig a pherchnogion tai, mae'r Grŵp yn derbyn mwy o risg cyllido nag y mae darparwyr cyllid masnachol yn barod i'w oddef yn nodweddiadol.

Mae Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd Grŵp yn nodi dull y Grŵp o ymdrin â'r maes llywodraethu pwysig hwn, cyfrifoldebau allweddol, y fframwaith rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd a thrwy hynny y mae'r Bwrdd yn sicrhau dyluniad effeithiol ac effeithiolrwydd gweithredol system rheolaeth fewnol y Grŵp.

Oherwydd natur ei weithgareddau nid yw Banc Datblygu Cymru ccc wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA) na'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, er bod tri o'i is-gwmnïau ag asedau sy'n cynrychioli llai na 2% o'r portffolio yn cael eu rheoleiddio gan yr AYA. Mae gweddill y Grŵp wedi'i eithrio rhag goruchwyliaeth reoleiddiol.

Fodd bynnag, mae Banc Datblygu Cymru ccc yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau cymwys eraill ac mae ganddo gyfres o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amgylchedd rheoleiddio, gan gynnwys Trosedd Ariannol, Gwrth-Lwgrwobrwy a Llygredd, Gwrth-Dwyll, Chwythu'r Chwiban, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ("GDPR") a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Rôl y Bwrdd

Rôl y Bwrdd yw sicrhau bod gan y Grŵp strategaeth tymor canolig sy'n gyson â'r cylch gwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a bod arweinyddiaeth effeithiol a mentegarol yn bodoli o fewn fframwaith o reolaeth ddarbodus ac effeithiol sy'n galluogi asesu a rheoli risg. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ac fe'i cefnogir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i gyflawni'r rôl hon (gweler Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg am fanylion pwrpas a chyfrifoldebau'r pwyllgor hwn mewn perthynas â rheoli risg a rheolaeth fewnol).


Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cymysgedd briodol, ar y Bwrdd ac o fewn y Grŵp ehangach, o arbenigedd, gwybodaeth am y busnes, profiad ariannol, gwybodaeth dechnegol a safbwyntiau allanol.

Mae'r Bwrdd yn gosod goddefiannau risg y Grŵp i nodi a diffinio'r mathau a'r lefelau o risgiau y mae'n barod i'w derbyn wrth geisio cyflawni amcanion strategol y Grŵp ac i sicrhau bod fframwaith priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn cynnal diwrnodau strategaeth rheolaidd gydag aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli fel ffordd o nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Rôl y rheolwyr a'r staff

Mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn gyfrifol am weithredu Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd y Grŵp ac am rybuddio'r Bwrdd am ymddangosiad ac unrhyw newid sylweddol yn y tebygolrwydd o neu effaith y prif risgiau ac am ymgorffori arfer rheoli risg effeithiol trwy'r Grŵp. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod goblygiadau ariannol ac anariannol risg ar berfformiad y Grŵp yn cael eu cydnabod mewn modd darbodus ac amserol.

Mae'r holl staff yn gyfrifol am nodi, rheoli a lliniaru risgiau yn eu meysydd gweithredu a chyfrifoldeb.



FFRAMWAITH RISG

Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru yn agored i ystod amrywiol o risgiau wrth weithredu ei strategaeth ac wrth ymgymryd â busnes o ddydd i ddydd. Mae diwylliant lle mae risg yn cael ei dderbyn mewn modd bwyllog, rhesymegol a gwybodus yn allweddol i'w berfformiad hyd yma a'i lwyddiant yn y dyfodol. At hynny, nid yw perfformiad Grŵp yn cael ei fesur yn erbyn paramedrau buddsoddi yn unig ac mae'n bwysig bod meysydd risg eraill yn cael eu cydnabod a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y Grŵp yn agored i'r meysydd risg a ganlyn: Mandad Buddsoddi, Gweithredol, Cyllid, Cydymffurfiaeth, Enw Da, Strategol a Rhyngwyneb (risgiau sy'n codi o ryngweithiad y Grŵp â rhanddeiliaid, cyflenwyr a thrydydd parti eraill).

Mae'r Grŵp yn rheoli'r prif risgiau sy'n ymwneud â'i weithgareddau mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Asesiad blynyddol y Bwrdd o'r prif risgiau o ran cyflawni cynllun strategol y Grŵp yn llwyddiannus ac adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd;
- Gweithredu fframwaith rheoli risg wedi'i gynllunio i nodi a lliniaru risg ac wedi'i alinio â'r model "tair llinell amddiffyn" gydnabyddedig;
- Defnyddio rheolyddion lliniarol i leihau tebygolrwydd a / neu effaith risgiau a nodwyd;
- Rheoli risg o fewn goddefiannau risg fel y'i diffinnir gan y Bwrdd;
- Rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr newydd a hyfforddiant gorfodol i gydweithwyr mewn meysydd risg allweddol fel Diogelu Data, Diogelwch Gwybodaeth a brwydro yn erbyn gwyngalchu arian, llwgrwobrwy a llygredd;
- Argaeledd arweiniad i gydweithwyr trwy gyfres gynhwysfawr o bolisiau sydd ar gael ar fewnrwyd y Grŵp;
- Sganio'r gorwel i nodi newidiadau rheoliadol, deddfwriaethol a chyfrifyddu sydd ar ddod a risgiau sy'n dod i'r amlwg a fydd yn effeithio ar weithgareddau'r Grŵp.

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi effeithiol a chyson yn digwydd yn y Grŵp, mae'r Pwyllgor Buddsoddi yn gweithredu yn unol â'r Cylch Gorchwyl sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Buddsoddi yn gyfrifol am wneud penderfyniadau buddsoddi mwy. Dirprwyir yr awdurdod i gyfarwyddwyr ac uwch staff eraill mewn perthynas â phenderfyniadau buddsoddi eraill.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys Fframwaith Rheoli Risg y Grŵp (FfRhR) sy'n cefnogi dull gweithredu'r Bwrdd o nodi, asesu, monitro a rheoli'r risgiau y mae'r Grŵp yn eu hwynebu. Yr FfRhR sydd:

- Yn dangos cysylltiad clir â strategaeth a chynllun busnes cyffredinol y Banc Datblygu;
- Yn eiddo i'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol ac wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Banc Datblygu Cymru ccc. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn argymhell unrhyw newidiadau i'r FfRhR i'r Bwrdd i'w cymeradwyo;
- Yn amlinellu gweledigaeth ac amcanion rheoli risg, a'r dull o esblygu gallu rheoli risg y Grŵp;
- Yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac, os oes angen, yn amlach i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhagolygon busnes, economaidd neu reoleiddiol.

Nodir trafodaeth ar sut mae'r Grŵp yn ymdrin â'i risgiau mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn nodyn 20 o'r datganiadau ariannol.

Mae elfennau allweddol y FfRhR yn cynnwys diwylliant risg, goddefgarwch risg a sicrhau risg.

DIWYLLIANT RISG

Mae diwylliant risg yn cefnogi Grŵp Banc Datblygu Cymru i gyflawni ei bwrpas a'i amcanion datganedig o fewn risg derbyniol. Fe'i hadlewyrchir mewn ymddygiadau a arddangosir gan y Bwrdd a chydweithwyr o ran ymwybyddiaeth risg, cymryd risg a rheoli risg. Mae'r model "tair llinell amddiffyn" yn allweddol i sicrhau bod rheoli risg wedi'i ymgorffori ar draws y Grŵp. Anogir cydweithwyr i berchnogi adnabod a rheoli risg sy'n dod o fewn eu priod feysydd busnes.

Mae'r "tôn o'r rheng uchaf" yn rhan hanfodol o'r diwylliant hwn. Mae'r Bwrdd ac uwch reolwyr yn gweithredu ac yn disgwyl i gydweithwyr weithredu gyda didwylledd ac uniondeb a chyfeirio diffyg cydymffurfiaeth â pholisi a gweithdrefn i reng uwch.

Anogir cydweithwyr i adrodd / riportio digwyddiadau risg a "digwyddiadau a fu bron â digwydd".

Yn erbyn y cefndir hwn mae'r Grŵp mewn sefyllfa dda i gyflawni ei gyfrifoldebau risg ymddygiad a sicrhau bod ei gwsmeriaid yn cael eu trin yn deg. Mae risg ymddygiad (y risg o ganlyniadau gwael i gwsmeriaid) yn cael ei reoli mewn sawl ffordd, sy'n cynnwys:

- 1 Mae pob cydweithiwr yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rôl;
- 2 Mae polisi priso'r Grŵp yn sicrhau dull gweithredu cyson o ran cyfraddau llog, y mae mwy o fanylion amdano ar gael ar ein gwefan;
- 3 Mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol o'r holl geisiadau benthyciad rydyn ni'n eu gwerthuso;
- 4 Mae gwahanu dyletswyddau yn sicrhau bod penderfyniadau benthycia bob amser yn destun adolygiad gan "ail bâr o lygaid";
- 5 Mae niferoedd cwynion cwsmeriaid yn cael eu monitro'n agos ac mae uwch reolwyr yn ymateb i bob cwyn;
- 6 Cynhelir adolygiad o ffeiliau gan y tîm Cydymffurfiaeth;
- 7 Adolygir dyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol ein hamgylchedd rheoli gan ein harchwilwyr mewnol annibynnol.

GODDEFGARWCH RISG

Mae'r Grŵp wedi nodi'r categorïau risg menter a ganlyn sy'n berthnasol i'w strategaeth a'i weithrediadau ac yn ei adolygiad blynyddol o drefniadau rheoli risg ym mis Ionawr 2020, nododd y Bwrdd oddefgarwch i bob categori fel a ganlyn:

Categori Risg Menter	Goddefgarwch Risg
Cydymffurfiaeth	Dibwys
Rhyngwyneb	Isel
Mandad buddsoddi	Isel
Cyllid	Dibwys
Gweithredol	Isel
Enw da	Isel
Strategol	Isel

Mae'r Bwrdd wedi pennu'r prif risgiau canlynol i gyflawni amcanion strategol y Grŵp.

 **Llai o risg** |
  **Dim newid i risg** |
  **Mwy o risg**

PRIF RISGIAU

Yn ystod y flwyddyn adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Rheoli Risg a Sicrwydd Y Grŵp. Ystyriodd y Bwrdd hefyd y prif risgiau i gyflawni cynllun strategol y Grŵp yn llwyddiannus, gan ddod i'r casgliad bod y prif risgiau y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn parhau i fod yn briodol yn ddarostyngedig bod rhai agweddau cymharol fach yn cael eu mireinio.

 Methu â deall ac addasu i anghenion ein cwsmeriaid.

Risg a materion posibl	Sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Er mwyn parhau i fod yn rhan berthnasol ac effeithiol o'r dirwedd datblygu economaidd a chymorth busnes yng Nghymru mae'n hanfodol ein bod yn gwrandao ar ein cwsmeriaid i ddeall yr heriau sy'n eu hwynebu a sut orau y gallwn eu helpu i gyflawni eu hamcanion.</p> <p>Yr un mor bwysig yw codi ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau a'n cynhyrchion i ysgogi'r galw.</p> <p>Maes risg: RHYNGWYNEB Goddefgarwch risg: Isel Sgôr cyn-rheoli: Uchel</p>	<p>Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar ein perfformiad. Rydym yn cynnal arolygon boddhad ac yn ymgysylltu'n helaeth â'n cwsmeriaid a'r gymuned fusnes ehangach i ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a lle mae'n rhaid i ni wella. Ystyrir yr adborth hwn wrth gwmpasu ein rhaglen barhaus o welliannau gweithredol.</p> <p>Sgôr ôl-rheoli: Cymedrol</p>	<p>Gall busnes sefydledig nawr gael gafael ar micro fenthyciadau cyllid o hyd at £25,000 o dan ein proses ymgeisio symlach boblogaidd ac yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno opsiwn adnabod a gwirio ar-lein i wella ein heffeithlonrwydd ymhellach.</p>

— Methu â chyflawni Achos Busnes ac ymrwymadau'r Grŵp a / neu aliniad / ymgysylltiad gwael â'n rhanddeilydd.

Risg a materion posibl	Sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
Mae cyflwyno'r achos busnes yn gofyn am "fusnes fel arfer" cryf parhaus o ran perfformiad tra'n gwella effeithlonrwydd gweithredol a thyfu'r busnes i gyflawni ein targedau heriol. Byddai methu â chyflawni'r ymrwymadau achos busnes yn achosi difrod i enw da. Maes risg: STRATEGOL Goddefgarwch risg: Isel Sgôr cyn-reoli: Uchel	Rheolir cyflwyno mentrau unigol trwy benodi timau prosiect, o dan arweiniad uwch reolwyr, gydag allbynnau wedi'u diffinio'n glir a monitro cynnydd yn agos gan ein Swyddfa Rheoli Prosiect. Cefnogir olrhain perfformiad busnes craidd y Grŵp gan gyfres gynhwysfawr o wybodaeth reoli. Mae aelodau'r bwrdd a'n cyfranddaliwr yn derbyn diweddariadau perfformiad rheolaidd mewn perthynas â busnes craidd a gwaith prosiect. Sgôr ôl-reoli: Arwyddocaol	Mae ein prosiect trawsnewid digidol helaeth, a ddyluniwyd i sicrhau enillion cynhyrchiant a gwella ein rhyngwyneb cwsmeriaid, wedi trosglwyddo o'r cam dylunio i'r cam gweithredu. Mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn ganolog i gyflawni'r galw digynsail am gyllid yn llwyddiannus rydym wedi'i weld oherwydd yr achosion o Covid-19.

— Methu â gwneud y gorau o effeithiolrwydd gweithredol a rheoli newid.

Risg a materion posibl	Sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
Mae prosesau a systemau aneffeithlon neu aneffeithiol yn debygol o arwain at safonau gwasanaeth cwsmeriaid gwael a difrod i enw da i frand a hanes y Grŵp. Bydd agwedd anghyson at weithgaredd buddsoddi craidd yn effeithio ar berfformiad y Grŵp o ran amhariadau cynyddol, llai o enillion cronfa a mwy o bosibilrwydd o dorri cytundebau cyllido. Maes risg: GWEITHREDOL Goddefgarwch risg: Isel Sgôr cyn-reoli: Uchel	Mae gennym set gynhwysfawr o weithdrefnau ar gael i'r holl gydweithwyr ar ein mewnnydd. Mae ein tîm Cydymffurfiaeth yn cynnal adolygiadau ffeiliau rheolaidd i sicrhau dulliau gweithredu cyson. Rhennir y canlyniadau ag uwch reolwyr ac mae gan staff dargedau ansawdd wedi'u hymgorffori yn eu hamcanion perfformiad blynyddol. Er mwyn cyflawni ein targedau ymestyn yn gost-effeithiol, sylweddolwn fod yn rhaid i ni chwilio am ffyrdd gwell o weithio yn gyson. Mae ein Grŵp Llywio TGCh yn boblog gyda chydweithwyr o bob rhan o'r busnes ac mae'n gyfrifol am gyflawni ein prosiect trawsnewid digidol yn llwyddiannus i wella profiad y cwsmer, hwyluso gwell gwaith hyblyg a gyrru effeithlonrwydd gweithredol. Sgôr ôl-reoli: Sylweddol	Mae'r prosiect digideiddio eisoes wedi dod ag enillion effeithlonrwydd a hyblygrwydd ar ffurf, er enghraifft, galluogi mwy o weithio gartref. Mae hyn wedi bod yn ganolog i'r newidiadau gweithredol a gweithdrefnol sydd wedi galluogi'r Banc Datblygu i ddefnyddio cyfwerth â bron i flwyddyn o fenthyciadau a buddsoddiadau mewn llai na thri mis. Bydd y profiad a gafwyd wrth ymateb i heriau Covid-19 yn helpu i lywio newidiadau i'n prosesau a'n systemau wrth i'r prosiect trawsnewid digidol barhau.

— Methu â sicrhau bod cyllid ar gael yn barhaus o ran math a / neu digonolrwydd.

Risg a materion posibl	Sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
Mae parhad tymor hir y Banc Datblygu yn dibynnu ar barodrwydd parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu arian i fuddsoddi. Mae ansicrwydd ynghylch argaeledd arian yn y dyfodol gan Lywodraeth y DU yn dilyn Brexit. Mae Covid-19 wedi arwain at alw llawer uwch am arian gan y gymuned fusnes. Maes risg: ARIANNU Goddefgarwch risg: Dibwys Sgôr cyn-reoli: Arwyddocaol.	Rydym yn tynnu ar ein profiad ein hunain a phrofiad ein cwsmeriaid i nodi bylchau yn y ddarpariaeth o gyllid sector breifat ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion cronfa i fynd i'r afael â methiant y farchnad. Mae tystiolaeth o ddarparu allbynnau cronfa yn llwyddiannus yn allweddol i'n hygredd fel sianel gyflenwi broffesiynol a llwyddiannus ar gyfer mentrau cymorth busnes Llywodraeth Cymru a busnes rheoli cronfeydd. Yn unol â hynny, rydym yn olrhain perfformiad cronfeydd a chyflawniad y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â hwy. Sgôr ôl-reoli: Cymedrol	Ym mlwyddyn ariannol 2019/20 cododd y Banc £71m o gyllid ychwanegol i gefnogi busnesau micro i ganolog Cymru, gan fynd â'r swm a godwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf i £501m. Rydym yn parhau i ddatblygu cyfleoedd cronfa newydd lle rydym yn nodi y bydd methiant yn y farchnad fel rhan o'n strategaeth i ddarparu rhaglen dreigl o gronfeydd. Mae'r trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghlŷn â chodi arian pellach.

— Agored i niwed i seiber-ymosodiad, torri diogelwch data a'r bygythiad o wadu y gwasanaeth TG.

Risg a materion posibl	Sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
Rhaid i ystâd TG y Grŵp fod yn weithredol yn gydnherth ac yn ddibynadwy, yn gallu gwrthsefyll ymosodiad allanol ac, mewn senario waethaf, wedi'i ffurfweddu i oresgyn ymosodiadau gwrthod gwasanaeth mewn modd amserol. Mae'n bwysig bod defnyddwyr TG yn gweithredu yn unol ag arfer gorau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dorri diogelwch data a'r goblygiadau o ran enw da, gweithredol ac ariannol a allai godi fel arall. Maes risg: GWEITHREDOL Goddefgarwch risg: Isel Sgôr cyn-reoli: Uchel	Mae ein hystâd TG wedi'i gwarchod gan ystod o fesurau gan gynnwys plattform seiber ddiogelwch a reolir gan y diwydiant sy'n darparu rheolaeth bregusrwydd awtomataidd, waliau tân cwmwl a lleol, amgryptio data, haenau lluosog o amddiffyniad gwrth-firws, hidlo cynnwys rhyngwryd a chopiau wrth gefn. Cynhelir Profion Treiddiad yn flynyddol neu ar unrhyw adeg o newid sylweddol. Gofynnir am gyngor arbenigol trydydd parti lle bo hynny'n briodol. Mae cymorth TG yn cael ei gontractio yn allanol i ystod o gyflenwyr trydydd parti arbenigol, y mae pob un ohonynt yn ddarostyngedig i gontract Cytundebau Lefel Gwasanaeth y gellir eu gorfodi. Manylir ar weithdrefnau TG yn ein Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Darperir hyfforddiant diogelwch ac ymwybyddiaeth seiber ar-lein yn barhaus ac mae'n orfodol ar draws y Grŵp. Mae yna brosesau cyfyngu ac ymchwilio cadarn ar gyfer torri. Sgôr ôl-reoli: Sylweddol	Bellach mae offer cydweithredu fel e-bost a theleffoni yn cael eu cynnal ar gwmwl Microsoft Azure, gan wella perfformiad, diogelwch ac argaeledd ymhellach. Ailgynlluniwyd ein trefniadau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb i gyd-fynd ag ISO-22301, gan arwain at ddim tarfu ar BfA yn ystod argyfwng Covid-19. Mae gan yr adran TG adnoddau priodol i gefnogi'r amrywiol fentrau digideiddio. Adnewyddwyd achrediad llywodraethu Cyber Essentials Plus yn llwyddiannus eto. Mae hwn yn gynllun a gefnogir gan y diwydiant a gefnogir gan y llywodraeth sy'n galluogi sefydliadau i ddangos bod rhagofalon hanfodol i liniaru yn erbyn y risgiau o seiber-ymosodiadau cyffredin wedi'u cymryd a bod gwybodaeth am gwsmeriaid a chyflenwyr yn cael ei gwarchod.

— Methu â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol.

Risg a materion posibl	Sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
Mae'r Grŵp a'i weithgareddau yn ddarostyngedig i amrywiol ddeddfau a rheoliadau. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys: yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â chredyd defnyddwyr a gweithgareddau FW Capital, caffael cynhyrchion a gwasanaethau, Cymorth Gwladwriaethol a chyfyngiadau daearyddol o ran buddsoddiad a gweithgaredd benthyciadau a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Byddai torri'r rheoliadau hyn yn niweidio brand ac enw da'r Grwpiau a gallai arwain at ddirwyon neu sancsiynau eraill, gan gynnwys camau cyfreithiol, a allai rwystro gallu'r 'Grwpiau' i weithredu neu godi arian pellach. Maes risg: CYDYMFFURFIAETH Goddefgarwch risg: Dibwys Sgôr cyn-reoli: Uchel	Rydym yn cynnal polisiau a gweithdrefnau manwl ar ein mewnnydd ac mae ein tîm Cydymffurfiaeth mewnol yn ymgymryd â gweithgaredd samplu ffeiliau, adroddir y canlyniadau i'r uwch reolwyr. Mae ein harchwilwyr mewnol annibynnol yn rhoi sicrwydd ar ddyluniad ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol ar draws y Grwp ac yn argymhell meysydd i'w gwella yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'n ofynnol i gydweithwyr ymgymryd â hyfforddiant gorfodol rheolaidd mewn perthynas â nifer o feysydd rheoleiddio Sgôr ôl-reoli: Sylweddol	Mae cydweithwyr yn ymgymryd ag ystod o hyfforddiant gorfodol mewn perthynas ag urddas a pharch yn y gweithle, seiber ddiogelwch, diogelwch gwybodaeth, cydymffurfio â rheoliadau GDPR, gwrthsefyll llwgrwobrwyo a llygredd, gwrth-wyngalchu arian a rheoli risg. Rydym wedi ehangu'r defnydd o'n teclyn hyfforddi deallusrwydd artiffisial wrth ddarparu hyfforddiant cydymffurfio a rheoleiddio parhaus. Gweithredwyd gofynion yr Uwch Reolwyr a'r Gyfundrefn Ardystio yn unol â'r dyddiadau cau a bennwyd gan yr AYA. Rydym wedi nodi achosion lle na chydymffurfiwyd yn llawn â gofynion y Ddeddf Credyd Defnyddwyr. Rydym wedi ystyried y sefyllfa gyfreithiol a rheoliadol ac wedi ceisio cyngor cyfreithiol ac yn ymgymryd â rhaglen unioni sy'n cynnwys adolygu ein gweithdrefnau a'n systemau mewn perthynas â gweithgaredd DCD. Mae ein harchwilwyr mewnol annibynnol wedi cyflawni'r cynllun archwilio mewnol ac wedi categorio prosesau rheoli risg a rheolaeth y Grŵp fel rhai a "Bodhaol yn gyffredinol gyda rhai gwelliannau yn ofynnol."

LLINELLAU MODEL AMDDIFFYN

Y llinell amddiffyn gyntaf

Sicrwydd a gafwyd yn uniongyrchol gan berchnogion risg bod y rheolaethau lliniaru a fwriadwyd i reoli'r risgiau y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt yn ddigonol ac yn gweithredu'n effeithiol. Gall hyn ddeillio o'r adolygiad chwarterol o'r gofrestr risg a Datganiadau Sicrwydd blynyddol gan berchnogion risg.

Yr ail linell amddiffyn

Sicrwydd sy'n deillio o'r adolygiad o weithrediad, addasrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau gan weithiwr Grŵp heblaw perchennog y risg a thu allan i adran perchennog y risg. Gall yr adolygiadau hyn fod ar sawl ffurf gan gynnwys; adolygiad rheolaidd o gyfres gynhwysfawr o wybodaeth reoli, adolygiadau risg, samplu ffeiliau, plymio dwfn a dadansoddi senarios.

Y drydedd linell amddiffyn

Sicrwydd yn deillio o ganfyddiadau adolygiadau a gynhaliwyd gan archwilyr mewnol annibynnol y Grŵp.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol cytunir ar gwmpas y gwaith gyda'r archwilyr mewnol, gan roi manylion y meysydd busnes sydd i'w hadolygu a'r amseriad arfaethedig a hyd pob adolygiad. Allbwn pob adolygiad yw adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n manylu ar gwmpas y gwaith a wnaed, enghreifftiau lle mae rheolaethau'n gweithredu'n ddibynadwy a meysydd i'w gwella ac argymhellion i fynd i'r afael â hwy.

Mae argymhellion sy'n codi o adolygiadau archwilio mewnol yn cael eu graddio fel blaenoriaeth gynghorol, isel, canolig, uchel neu feiriadol, yn dibynnu ar y risg ganfyddedig, ei thebygolrwydd a'i heffaith. Mae'r rheolwyr yn darparu ymatebion i argymhellion a dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Mae pob adolygiad yn gorffen gyda dosbarthiad risg isel, canolig, uchel neu gritigol ar y nifer a blaenoriaeth yr argymhellion sy'n codi.

Mae sicrwydd annibynnol hefyd yn deillio o adolygiad dilynol blynyddol o'r argymhellion sy'n deillio o adroddiadau archwilio mewnol blaenorol, i nodi cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion.

Mae ein harchwilyr mewnol annibynnol wedi cyflawni'r cynllun archwilio mewnol ac wedi categorioiddio prosesau rheoli risg a rheoli'r Banc fel rhai "Bodddhaol yn gyffredinol gyda rhai gwelliannau yn ofynnol."

Mae archwilyr allanol y Grŵp yn darparu her gadarn o'r dyfarniadau allweddol a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac yn adolygu'r systemau rheoli mewnol a rheoli risg at ddibenion y datganiadau ariannol.

Gwneir argymhellion i fynd i'r afael â meysydd pryder i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac fe ddilyniir hynny ymhellach trwy gyfrwng archwiliadau dilynol.

Mae gweithgareddau grŵp hefyd yn cael eu harchwilio neu eu profi gan gyrrff allanol annibynnol eraill, gan roi sicrwydd pellach fel rhan o'r drydedd linell amddiffyn. Er enghraifft, mae'r Grŵp yn dal achrediad Cyber Essentials Plus ac yn cael asesiad blynyddol trwy brofion treiddiad ar y safle o'r perimedr TG, ystâd y gweinydd, dyfeisiau cyfrifiadurol a'r platfform e-bost.

Yn ystod y flwyddyn, archwiliwyd sut y cyflawnodd y Grŵp Gronfa Busnes Cymru gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewrop (EFAT) gan arwain at farn ddiamed mewn perthynas â'r trefniadau rheoli a gweithredol cyffredinol sydd ar waith ar gyfer Cronfa Busnes Cymru.

Llinell amddiffyn gyntaf


Rheolaeth a pherchnogaeth risg o ddydd i ddydd

Ail linell amddiffyn

Polisiau risg, methodolegau a goruchwyliaeth a her annibynnol

Trydedd linell amddiffyn

Sicrwydd annibynnol



Egwyddorion allweddol y model hwn, fel y dangosir yn y diagram uchod, yw:

- 1 Mae gan y Bwrdd atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg yn y Banc Datblygu.
- 2 Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rolau a chyfrifoldebau rheoli risg penodol i Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol.
- 3 Cefnogir y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn trwy adroddiadau uniongyrchol gan yr uwch dîm, gyda'r olaf hefyd yn cael ei gefnogi gan y swyddogaeth Risg a Chydymffurfiaeth wrth gyflawni eu cyfrifoldebau hwy.

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol

Neil Maguinness

Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol
29 Gorffennaf 2020



2

LLYWODRAETHU

Rydym yn ymrwymedig i lywodraethu corfforaethol da, sy'n hyrwyddo buddiannau ein rhanddeiliaid, yn cryfhau atebolrwydd ac yn hwyluso perfformiad sefydliadol.

ADRAN LLYWODRAETHU

Yn y rhan hon o'r adroddiad blynyddol, rydym yn egluro sut mae'r fframwaith llywodraethu a rheoli risg yn cefnogi cyflawni amcanion y Grŵp.

Yn benodol rydym yn datgelu sut mae'r Banc Datblygu yn cael ei reoli er budd ei gyfranddaliwr a'i randdeiliaid eraill, rôl a chyfansoddiad y Bwrdd a'i amrywiol bwyllgorau a'r risgiau y mae'r Grŵp yn agored iddynt a sut y maent yn cael eu rheoli.

Mae'r prosesau llywodraethu hyn hefyd yn sicrhau bod adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Banc Datblygu, o'i gymryd yn ei gyfarwydd, yn deg, yn gytbwys, yn ddealladwy, ac yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i randdeiliaid i asesu model busnes, strategaeth a pherfformiad y Grŵp.

